KATE ROWLANDS

# DYDDIADUR KATE

-1915-

# DYDDIADUR KATE

## Kate Rowlands

© Casgliad Amgueddfa Cymru

Gyda diolch i Eilir Rowlands a'r teulu

national museum wales
amgueddfa cymru

CYMRU'N COFIO
WALES REMEMBERS
1914 - 1918

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# CYNNWYS


IONAWR 5

CHWEFROR 20

MAWRTH 32

EBRILL 46

MAI 57

MEHEFIN 71

GORFFENNAF 86

AWST 100

MEDI 112

HYDREF 126

TACHWEDD 140

RHAGFYR 154

CYFWELIAD SAIN 161

Y DYDDIADUR GWREIDDIOL 163



Kate Rowlands yn 1969.

IONAWR

— 1915 —

## 1 IONAWR 1915

Gwlaw mawr iawn trwyr dydd. Ellis a minnau yn mynd ir seiat. Anwen yn yr Hendre. Tomi Hendre yma min nos (ar ol y seiat).

Tomi Hendre = Thomas Jones, Hendre, Cwm Main. Ymunodd â'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn Rhagfyr 1915. Bu farw yn Ysbyty Ryfel Leith ar 27 Awst 1916.

- Erthygl // *Y Cymro – Angladd Tomi Hendre*
- Erthygl // *Yr Adsain – Angladd Tomi Hendre*
- Blog Dyddiadur Kate // *Pwy 'di Pwy?*

## 2 IONAWR 1915

Richard yma y boreu yn cael tori ei wallt. Ellis yn mynd ir Bala yn y prydnawn. Anwen yn mynd adref. John Robert Jones Hendre Cwmain yma yn cael tori ei wallt min nos.

## 3 IONAWR 1915

Rev. J. O. Jones Gweinidog Cyf Gweddi yr hwyr. Ella yma yn ei thê. Myfi adref y boreu.

## 4 IONAWR 1915

Diwrnod braf iawn. Ella a finnau yn mynd ir Byrgoed ac yn galw yn Brynhyfryd, Llys Mair ac Islwyn. Dod adref ir Cyfarfod Gweddi.

## 5 IONAWR 1915

Ella, Edward a finnau yn mynd i Fedwarian y boreu. Oddi yno i Frongoch Whisgi Works ac yn ol i Fedwarian. Yna adref ir Cyf. Gweddi.

## 6 IONAWR 1915

Myfi yn cookio y boreu. Ellis yn yr Hendre. Disgwyl Mr a Mrs Hughes Parc yma yw te ond yn ormod tywydd. Richard yma yn ei dê Ellis yn mynd ir Cyfarfod Gweddi.

## 7 IONAWR 1915

Tywydd mawr iawn. Disgwyl Mr + Mrs Hughes Parc yma ond yn ormod tywydd. Ein tri yn mynd ir Cyf. Gweddi Pwyllgor "Cymdeithas y Tarw" ar ol y Cyf. Gweddi. Mam a finnau yn galw yn Penyffordd wrth ddod adref.

* Blog Dyddiadur Kate // *"Tywydd mawr iawn"*

## 8 IONAWR 1915

Tywydd mawr iawn. Ellis yn mynd heibio yr Hendre ir Cyfarfod Gweddi. Ein tri yn y Cyf. Gweddi. Mrs Ellis Llanerch Llidiardau yn wael iawn wedi cael stroke.

## 9 IONAWR 1915

Mammam yn mynd i Gorwen. Edward a finnau yn mynd i'r Bala (ar ol tê). Robert Daniel Jones, Caerau, Tom Hendre, Richard, a John Robert Hendre Cwmain yma min nos. Hwyl fawr.

## 10 IONAWR 1915

Rev. J. H. Williams Mynydd Isa. Gwlaw mawr iawn.

## 11 IONAWR 1915

Ella ag Edward yma yn eu tê.
Myfi yn dechrau gwneyd tea cosy.
Humphrey Davies Derwgoed a Simon
William Jones Coedybedo yma min
nos Fewythr Evan Penyffordd yn dod
yma am dro yn y prydnawn.

## 12 IONAWR 1915

Uncle ac Auntie Fedwarian yn
dod yma yn y prydnawn. Uncle
yn cwyno dipyn. K. E. Hughes a
minnau yn mynd i'r ffactory i
dalu cyfran o arian y Belgians.
Robert Daniel Jones Caerau yma.

## 13 IONAWR 1915

Ellis yn mynd i nôl glo. Myfi yn mynd ir Bala i'r pregethau. Rev. W. Prydderch Abertawe a Watkins Dinorwig yn pregethu. Bob Price yn dod yma.

## 14 IONAWR 1915

Ellis a mam yn y Bala trwy'r dydd. Cyfarfod misol. Gwlaw mawr ofnadwy min nos.

## 15 IONAWR 1915

Malu lot o wellt ir gwartheg a'r ceffyl. Tywydd garw. Mam yn mynd i Penybryn min nos. D. Morris Evans Tanybryn a Tomi Hendre yma min nos.

## 16 IONAWR 1915

Ellis a mam yn mynd ir Bala ir ffair. Tywydd pur arw. Richard a Tomi Hendre yma min nos.

## 17 IONAWR 1915

Myfi yn yr Hendre yn fy nghinio a fy nhê. Aros yno y prydnawn. Rev. J. T. Williams yma yn pregethu.

## 18 IONAWR 1915

Diwrnod hynod o braf. Yr injan ddyrnu yn Llwyniolyn. Myfi yn mynd i edrych am Mrs Evans min nos. Janet Jones Tynybwlch yno.

## 19 IONAWR 1915

Golchi yn y boreu. Ellis yn cario calch. Mam yn mynd i Fedwarian yn y p'nawn. Ymdaith y milwyr trwy Station. Eu noson yn y Bala Ymunodd 25 yng Nghorwen a 5 ym Mhenllyn.

- Casgliadau'r Rhyfel Byd Cyntaf // *Recriwtio*
- Blog Dyddiadur Kate // *Recriwtio yn y Rhyfel Byd Cyntaf*

## 20 IONAWR 1915

Auntie Fedwarian yn dod i Hendre, ac i Penyffordd. Mam yn mynd i Penyffordd min nos. Ellis yn mynd i bwyllgor y Gymdeithas

## 21 IONAWR 1915

Tywydd mawr iawn. Cawodydd mawr o eira. Mam yn mynd ir Hendre ar ol cinio. Auntie yno. J Ellis Penyffordd yno yn ei thê. Mynd ir seiat. Tywydd mawr iawn. Tomi Hendre yma.

* Casgliadau'r Rhyfel Byd Cyntaf // *Ymrestru*

## 22 IONAWR 1915

Malu lot o wellt ir ceffyl a'r gwartheg. Edward Evans Tynybryn a Fewythr Hugh yma yn y p'nawn. Ellis a minnau yn mynd i Gyfarfod Darllen min nos. Mr Jones (Gweinidog) yn athraw.

## 23 IONAWR 1915

Ellis yn Tynybryn gyda'r peiriant dyrnu. Edward yn galw yma yn y boreu wrth fynd i nol y "screen" adref or Sarnau ar ol y "ddrama". Myfi yn cerdded ir Bala ar ol tê. Cael lift gan Caradog o Lanfor.

## 24 IONAWR 1915

Mam yn yr Hendre yn ei chinio. Myfi yn mynd ir Byrgoed y prydnawn.

## 25 IONAWR 1915

Diwrnod braf iawn. Marwolaeth Willie Jones Llandderfel yn 35 oed. Bob Price yma min nos. David Roberts Pentre ag Humphrey Davies yma min nos.

* BLOG DYDDIADUR KATE //
*Willie Jones a'r "hen elyn marwol"*




Blwch casglu er budd ymgyrch *Crusade Against Consumption*, 1914.

## 26 IONAWR 1915

Diwrnod braf iawn. Cadw dillad trwy'r prydnawn. Mynd in gwelau yn bur gynar. Myfi yn golchi fy mhen.

## 27 IONAWR 1915

Ellis a mam a mammam yn mynd i Fedwarian.

## 28 IONAWR 1915

Mam a minnau yn mynd i gladdedigaeth Willie Jones. Diwrnod oer iawn. Auntie Grace a mam yn mynd ir Byrgoed. Y seiat ymwelwyr yn y cefn. Rev Richard Morris a Dr Peters yn ymweld. Ellis a minnau gartref.

## 29 IONAWR 1915

Diwrnod braf iawn. J ac Ellen Owen Pentre yma yn eu swper. Hwyl da iawn. Johnnie Owen yn adrodd ei hanes pan yn llongwr.

## 30 IONAWR 1915

Y peiriant dyrnu yn Penycefn. Myfi yn mynd ir "School House" Parc dros y Sul. Mynd ar unwaith ag Eliza Robers Parc. Noswaith hynod o braf.



Dyrnu ar fferm Tai'n y Cwm, Cefnddwysarn, 1900au cynnar.

## 31 IONAWR 1915

Mynd ir capel y prydnawn ar nos.
Yn y Parc.

# CHWEFROR

— 1915 —

## 1 CHWEFROR 1915

Mynd ir "Fron" yn y p'nawn. Mr & Mrs Hughes Fron, Mr & Mrs Edwards Ffridd Isa, a minnau yn Gwernbusaig yn ein swper. Tywydd ofnadwy. Myfi yn aros yno.

## 2 CHWEFROR 1915

Tywydd ofnadwy. Gwlaw mawr. Myfi yn aros Gwernbusaig. Chwareu ludo min nos.

## 3 CHWEFROR 1915

Tywydd mawr. Myfi yn aros yn Gwernbusaig. Lizzie Pentre yn dod yno. Gwynt ofnadwy a gwlaw.

## 4 CHWEFROR 1915

Dipyn gwell tywydd. Myfi yn mynd yn ol ir Parc.

## 5 CHWEFROR 1915

Diwrnod braf iawn. Myfi yn dod adref. Mr E. H. Evans yn darlithio yng nghyfarfod Cymdeithas Ddirwestol. Tywydd mawr iawn min nos. Ellis yn cwyno "influenza".

## 6 CHWEFROR 1915

Ellis yn ei wely y rhan fwyaf or diwrnod. Mam yn mynd ir Bala. John Robert Jones Hendre Cwmain yn galw yma min nos, oddiwrth y peiriant dyrnu yn Tynyfoel.

## 7 CHWEFROR 1915

Tywydd ofnadwy. Myfi yn mynd ir ysgol. Gartref y prydnawn ar min nos hefo Ellis. Mam yn y ffactory yn ei thê.

## 8 CHWEFROR 1915

Tomi yn mynd a hwch dew ir Bala. Myfi yn mynd iw phwyso. Tomi yn dod a llwyth o galch adref. Myfi yn dechreu clwyfo or influenza Ellis ychydig yn well. Codi i nol "orange" yn y nos.

## 9 CHWEFROR 1915

Ellis heb fod gystal. Richard yma yn "bailiff". Minnau yn reit ddrwg. Wedi cysgu.

## 10 CHWEFROR 1915

Claddu R. Thomas Nantgau. J. Jones Ysgubor Fawr yma yn nol benthyg y tresi blaen i symyd y peiriant dyrnu i Brynmoel. Mammam a R. Daniel Jones yma min nos. J. Williams Pantyneuadd yn dod yma.

## 11 CHWEFROR 1915

Ellis ychydig yn well a minnau rhywbeth debyg.

## 12 CHWEFROR 1915

Ellis yn mynd i nol glô. Anwen yn dod i edrych amdanom ac i'r Hendre. Minnau yn mynd i ddanfon ychydig arni. Deborah a merch Tynyffron yma yn gwerthu tocynnau at goncert yn Glanrafon at gynorthwyo y Belgiaid.

* Casgliadau'r Rhyfel Byd Cyntaf // *Ffoaduriaid*

## 13 CHWEFROR 1915

Tywydd mawr ofnadwy eira. Ellis yn mynd i ffair y Bala. Myfi allan ychydig yn edrych ar ol y defaid. Lluwchfeydd mawr iawn.

## 14 CHWEFROR 1915

Myfi adref trwy'r dydd. Mam yn mynd ir Hendre ac yn dod adref ar ol tê.

## 15 CHWEFROR 1915

Myfi yn mynd ir Sarnau yn y boreu. Ellis yn mynd Rhydlise, prynu 2 fochyn yno. John Davies yma yn lladd mochyn ar ol tê Fewythr Hugh yma yn helpu.

## 16 CHWEFROR 1915

Ellis yn mynd i Rhydlise yw helpu i ladd hwch. Tomi Hendre yn Rhydlise yn nol 2 fochyn y boreu. Mrs Williams Derwgoed yma yn y prydnawn. John Davies yma yn tori'r mochyn y prydnawn (hwyr). Richard a Tomi yma min nos a R. Daniel Jones Caerau.

## 17 CHWEFROR 1915

*Ellis yn cael ei daraw yn sal yn sydyn yn y boreu. Richard yma yn corddi. Ellis yn gwella at y prydnawn. David Terrace ag Auntie Grace yma min nos. Tarannau lled drymion yn y nos.*

* BLOG DYDDIADUR KATE // *Corddi Menyn*



Pŵer ceffyl ar fferm yn Nhanygrisiau. Peth digon cyffredin oedd gweld ceffyl yn corddi tan y 1920au.

## 18 CHWEFROR 1915

Sale y Derwgoed. Tywydd ofnadwy. Gwlaw mawr. Myfi yno yn helpu. Ellis yn dod yno y prydnawn am ychydig o amser. Jane Williams Pantymarch yn dod gyda mi yma min nos a John Williams a Richard.

## 19 CHWEFROR 1915

Halltu yn y boreu. Johnny Llawr Cwm yn galw yma. Richard yma yn helpu malu gwellt. Mammam yn dod yma ar ol tê. Jane Pantymarch a finnau yn mynd ir Byrgoed min nos. Mrs Williams Derwgoed yn cwyno yn bur arw (influenza).

## 20 CHWEFROR 1915

Mam yn mynd ir Bala yn y boreu yn nhrol Penybryn a cherdded adref min nos. John Robert Hendre Cwmain yn galw yma min nos. Tomi Hendre yn dod yma min nos.

## 21 CHWEFROR 1915

Myfi yn mynd ir capel trwy'r dydd. Jane Pantymarch yma yn ei thê.

## 22 CHWEFROR 1915

Berwi pen mochyn, a thoddi lard. Myfi yn mynd ir Hendre. Tomi a Richard yma min nos. Robert Daniel Jones yn ymadael or Caerau ir Derwgoed yn wael.

Roedd Robert Daniel Jones yn byw ar fferm y Derwgoed, ger Llandderfel. Ymunodd â'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig ar 23 Mawrth 1915.

## 23 CHWEFROR 1915

Pobi bara ceirch y boreu. Myfi yn mynd i gladdu Hugh Jones (Cwmcwan gynt). Tywydd ofnadwy (eira mawr). Richard a minnau yn cael ride yng nghar yr Hendre. R. Daniel Jones yma y prydnawn. Ellis yn mynd ir Hendre min nos.

## 24 CHWEFROR 1915

1 oen bach. Eira mawr. Ellis yn mynd i nol "Basic Slag" ir Bala. G. Ellis Penyffordd yma yn ei thê. Myfi yn clarcio drosti ac i gapel Glanrafon.

## 25 CHWEFROR 1915

Trwch da o eira, ac wedi rhewi. Ellis yn mynd ir Hendre. Myfi yn mynd ir seiat. Modryb Erwfeirig yn dod yma. Myfi yn cael swper yn Penyffordd. William Fedwarian yn dod ir Hendre ag yma.

## 26 CHWEFROR 1915

Mam yn cwyno y boreu. Ellis yn mynd ir Hendre min nos. Gwlaw mawr. Myfi yn mynd ir Ffactory i dalu arian y Belgians. Dadl gan gymdeithas y Bobl Ieuainc: Pa un ai gwr, ai y wraig ddylai fod canghellor y teulu? Gwraig 17. Gwr 16

## 27 CHWEFROR 1915

Ellis yn mynd ir Felin y boreu. Myfi yn cwyno. Yr anwyd. Yn fy ngwely dipyn o'r prydnawn. Fewythr Evan yma yn ei dê. R. Daniel Jones yn dod yma am dro. Mam yn mynd ir Bala.

## 28 CHWEFROR 1915

Mam a minnau adref trwy'r dydd (yn cwyno). Tywydd ofnadwy.

# MAWRTH

— 1915 —

## 1 MAWRTH 1915

Myfi yn cwyno (chwiw). Mam yn dechrau clwyfo o hono. J. R. Jones yn dod heibio yma min nos. Drama Taid a Nain yn y Bala gan gan gwmni o'r Abermaw.

## 2 MAWRTH 1915

Dal i gwyno. Myfi yn well. Mynd i Erwfeirig ar ol tê. Yn injan ddyrnu yn y Derwgoed. Gwlaw min nos.

## 3 MAWRTH 1915

Myfi dipyn yn well. Mam yn dal i gwyno. Ellis yn mynd ir Hendre min nos dod ag "Owbridge" oddi yno.

## 4 MAWRTH 1915

Ellis yn mynd i Fedwarian at y peiriant dyrnu. Uncle Fedwarian yn Birmingham yn prynu tarw pedigree. Mam ddim gystal. Richard a Bob Price yma min nos.

## 5 MAWRTH 1915

Mam yn well. Mr W. R. Evans Bontbren yn dod yma ganol dydd. Ellis yn mynd gydag ef i Penrhyn ar Hendre. Modryb Erwfeirig yn galw yma ar ol tê.

## 6 MAWRTH 1915

1 oen. Mam dipyn yn well. Corddi y boreu. Myfi yn mynd ir Bala. Prynu "raincoat". Tomi Hendre, Richard, J. R a S. W. Jones Coedybedo yma min nos.

## 7 MAWRTH 1915

Myfi yn yr Hendre yn fy nghinio. Mam yn Penffordd yn ei thê.

## 8 MAWRTH 1915

1 oen. Ellis yn dechreu troi ffridd wrth y ffordd. Diwrnod hynod o braf. Grace Penbryn yn dod yma min nos. R. Daniel Jones yn galw yma wrth fynd i Dyffryn Clwyd am dro.

## 9 MAWRTH 1915

Cael llythyr oddiwrth Win o Hermon. Myfi yn mynd ir Bala at y Dr (efo y card insurance). Galw yn Penyffordd wrth ddod adref. Bobbie wedi mynd i Gwmhwylfod ac i Cyf Darllen. Myfi yn cerdded efo Ethel.

## 10 MAWRTH 1915

1 oen. Ellis yn troi yn y ffridd wrth y ffordd. Myfi yn mynd ir Hendre ar ol tê. Bobbie Penyffordd yn dod yma yn y boreu ac yn aros tan ar ol tê. Fewythr Evan a Tomi yma min nos.

Bobbie Penffordd = R [Robert] William Ellis, Penyffordd.

## 11 MAWRTH 1915

Mam yn mynd ir Hendre yn y boreu. K Thomas a finnau yn mynd i sale y College (ty yr hen Ellis Edwards). Myfi yn galw am esgidiau Ellis yn Gwynle ond nid yn eu cael.

## 12 MAWRTH 1915

Ellis yn gorphen troi'r ffridd. Corddi canol dydd. Edward yn dod ag esgidiau Ellis or Bala ac i gael tori ei wallt.

## 13 MAWRTH 1915

Ellis a mam yn mynd ir ffair. Ellis a mam yn mynd a "Seren" i Gynlas. J. R. Jones Hendre Cwmain yma yn y boreu yn dweyd ei fod yn mynd i Manchester. Tom Hendre yma min nos.

## 14 MAWRTH 1915

Y cyfarfod ysgol. Myfi yn yr Hendre yn fy nghinio. Gladys Cwmhwylfod yma yn ei thê.

## 15 MAWRTH 1915

J. R. Jones Hendre Cwmain yn dod i ffarwelio a ni. Ef yn cychwyn i Manchester. Ann Catherine Jones Blaenycwm a Janet Davies Llwyniolyn yma yn eu swper. Auntie Grace a Richard yn dod yma.

## 16 MAWRTH 1915

Cychwyn y dyniewid (3) i ffwrdd y boreu. Ellis yn mynd i ffair Gorwen. Mam a Gwen Ellis yn mynd ir Byrgoed. Auntie Margaret a Kate Ffestiniog yn dod yno. Diwnrod braf iawn. Mam yn cael "bile" yn y nos.

## 17 MAWRTH 1915

Golchi trwy'r boreu. Mynd ar mangle allan. Modryb Erwfeirig yn dod i nol "ymenyn" y boreu. R. Daniel Jones, Tom a Richard yma Ellis yn mynd ar hwrdd i Gynlas.

## 18 MAWRTH 1915

Golch y boreu. Diwrnod budr iawn. Ellis yn mynd ir Hendre i ladd mochyn. Myfi yn mynd ir seiat. Seiat ymadawol a R. Daniel Jones Tywydd mawr min nos.

## 19 MAWRTH 1915

R. Daniel Jones yn dod yma yn y boreu. Efe yn mynd i ffwrdd i "Penygaer". Llwyth mud Penycefn yn methu troi yn y Sarnau Bob Lloyd yn dod yma i ymofyn menthyg tresi. Concert plant yr ysgol. Noson braf iawn. Bob Price yma.

Bob Price = Robert Price Rowlands.
Priod Kate yn ddiweddarach.

## 20 MAWRTH 1915

Ellis yn mynd ir felin. Myfi yn mynd ir Hendre a ganol dydd. Ellis yn mynd ir Bala (cerdded). Gwen Ellis yn dod yma a'n llestri adref. Diwrnod oer iawn.

## 21 MAWRTH 1915

Cyfarfod ysgol Bethel. Ella a minnau yno y p'nawn ar nos.

## 22 MAWRTH 1915

Ellis yn yr Hendre yn halltu. Mam yn mynd yno y prydnawn. Bob Lloyd yma yn cael tê. Dod ar tresi adref. Myfi yn mynd i shop Sarnau i fy swper.

* Y Bywgraffiadur //
*Bob Lloyd = Robert Lloyd (Llwyd o'r Bryn)*

## 23 MAWRTH 1915

Bobi bara ceirch y boreu. Mynd a chinio i Ellis ir ffridd. Efe yn hau slag yno. Myfi yn mynd i Fedwarian ar ol cinio. Galw yn Mynorfa. Win yno. Hithau yn dod i fy anfon adref.

## 24 MAWRTH 1915

Corddi y boreu. Modryb Erwfeirig yma yn nol ymenyn. Mam yn gwneyd fy nghoat i fyny. Mynd ir post min nos. Cael papur yn Penyffordd. Ellis yn trwsio fy "mike".

* Blog Dyddiadur Kate // *Gwneud Menyn*



Mrs Rachel Davies, Castellnewydd Emlyn, yn clapio menyn.

## 25 MAWRTH 1915

Ellis a minnau yn Erwfeirig gyda'r peiriant dyrnu. Cawod o eira budr iawn y boreu. Cyfarfod canu ar ol y seiat. Ellis Davies Llwyniolyn yma yn gwneyd count y tarw.

## 26 MAWRTH 1915

Myfi yn mynd ir Bala y boreu. Win a minnau yn mynd i Weirglodd-ddu Llanuwchllyn am y diwrnod. Minnau yn cysgu gyda Win yn "Mynorfa" Bala. Cyfarfod Mrs Hughes Fron Parc ai chwaer (Kate Jones) yn Llanuwchllyn.

## 27 MAWRTH 1915

Dod adref or Bala y boreu. Mam yn mynd ir Bala ar ol tê. Cawodydd oerion o eira. Tomi Hendre yma min nos.

## 28 MAWRTH 1915

Mam ir Hendre yw chinio. Myfi yn Tynybwlch yn fy nhê ac yna ir Byrgoed min nos. Bobbie yno.

## 29 MAWRTH 1915

Myfi yn mynd ir Hendre ar ol tê. Cyfarfod y Gymdeithas yn y Cefn. David Davies Talybont yn rhoddi hanes hen grefyddwyr Cefnddwysarn a Th Davies yn rhoi hanes hen gantorion yr ardal. Tomi a minnau yn gofalu am y canu. Canu "Ti wyddost beth ddywed".

## 30 MAWRTH 1915

Golchi y boreu. Mammam yn dod yma min nos. Myfi yn mynd ir Sarnau. Ysgrifenu llythyr at R. Daniel. Tomi yn dod yma min nos. Disgwyl Robert Brynmoel yma ond ni ddaeth. Dyfrio o boreu ar nawn.

## 31 MAWRTH 1915

Corddi y boreu. Modryb Erwfeirig yn dod a phethau yw "manglo". Myfi yn mynd ir Hendre y prydnawn a fy ffrog lwyd yw "haltro". Mynd ir post min nos. Richard yma min nos. Dyfrio o boreu ar nawn.

EBRILL

— 1915 —

## 1 EBRILL 1915

Cael tê yn Fedwarian. Robert Rowlands yn cwyno yn hir arw. Mr & Mrs Edwards Ffridd Isa' yno mis nos. Chwareu ludo min nos. Y Drill yn hau yn y Fron.

## 2 EBRILL 1915

Gwlaw mawr. Bob Price yn dod yno ar ol cinio. Gormod o dywydd ini fynd ir Cyfarfod i Talybont y prydnawn. Win a minnau yn galw yn y Llanerch min nos. Jane yn dod gyda ni i Dalybont. Hwyl dda.

## 3 EBRILL 1915

Gwlaw mawr trwy'r dydd. Win a minnau yn bwriadu myn ir "Fron" ond yn ormod o dywydd. R. Rowlands yn bur wanllyd.

## 4 EBRILL 1915

Mynd ir capel y nawn ar nos. Win a minnau yn Ffridd Isa' yn ein tê.

## 5 EBRILL 1915

Emrys ai fam yn Cefnmaes yn ein tê. R. Rowlands ychydig yn well. Myfi yn dod adref min nos. Win yn dod i fy nanfon at Fedwarian. Anwen wedi mynd i Dolgellau a Gladys yn Ffestiniog. Auntie gyda'r visitor allan am dro.

## 6 EBRILL 1915

Codi yn bur foreu. Ellis yn danfon "sbryniaid" yr Hendre at Taimawr. Edward ag yntau yn mynd i nol ein rhai ni o Fedwarian y prydnawn.

## 7 EBRILL 1915

Mam yn yr Hendre yn treulio ei diwrnod. Myfi yn mynd i Erwfeirig min nos. Ellis yn mynd i nol "fence" o Erwfeirig y boreu.

## 8 EBRILL 1915

Myfi yn mynd ir Sarnau yn boreu. Ellis yn mynd i sale Belle Vista Bala ac yn prynu cwpwrdd yno. Mr Jones Gweinidog yn galw yma. Myfi yn mynd ir seiat. Derbyn Edward yn gyflawn aelod.

## 9 EBRILL 1915

Myfi yn mynd ir Bryniau min nos. Modryb Erwfeirig yno. John Jones Ysgubor Fawr yno min nos. Tom Hendre ag Humphrey Davies yma min nos.

## 10 EBRILL 1915

Myfi yn mynd ir Bala. John Bryniau yn dod a'n cwpwrdd adref o'r Bala ac ychydig goed, eirin mair a currants oddiwrth Williams.

## 11 EBRILL 1915

Mam yn yr Hendre yn ei chinio a'i thê. Dim yn dod ir capel y p'nawn.

## 12 EBRILL 1915

Myfi yn mynd ir Bala ar ol tê cynar i nol paent at y cwpwrdd. Myfi yn llechu rhag y gwlaw am dipyn yn Osborne House.

## 13 EBRILL 1915

Gwneyd y cwpwrdd i fyny yn y boreu. Dechreu hau yn cae Bryn.

## 14 EBRILL 1915

Penybryn yn hau. Minnau yn dechreu ychydig ar cae ffordd.

## 15 EBRILL 1915

Hau ffridd wrth y ffordd. Spring cleanio y pantry ei liwio yn goch. Richard yma yn ei ginio ai dê. Bob Price yn dod yma. Ellis yn planu rhes o datws yn yr ardd.

## 16 EBRILL 1915

Corddi y boreu. Spring cleanio y dairy. Grace Penybryn yn dod ar bara yma. Myfi yn mynd ir Cefn min nos i dalu arian y Belgians i RRR. Humphrey Davies Derwgoed yma yn cael tori ei wallt min nos.

## 17 EBRILL 1915

Ellis a mam yn mynd ir ffair. Oen bach y ddafad gorniog yn cael tarawiad marwol y boreu. Morgan Hughes yn dod heibio yma ag arian y Belgians ac yn anghofio eu talu i RRR yn y Bala.

## 18 EBRILL 1915

Rice yn dod yma yn y boreu. Myfi adref y boreu.

## 19 EBRILL 1915

Dros 500 o garcharorion Germanaidd yn dod i Frongoch. Myfi yn mynd ir Post a mynd a choler ceffyl Berwyn House adref. Fewythr Hugh yn dod yma i weld y cwpwrdd.

## 20 EBRILL 1915

Ellis yn mynd i ffair Gorwen.
Myfi yn mynd i Llidiardau i
gladdedigaeth Mrs Ellis Llanerch.
Mynd i GB. Gorfod cerdded adref.
Dim gwynt yn y Bike.

## 21 EBRILL 1915

Hau hadau yn ffridd wrth y ffordd.
Minnau yn mynd ar dril i Caerau.
Mam yn mynd ir Hendre. Myfi yn
mynd ir Llan i nol Bike. Win yn
dod yma i nol y bike. Bob Price a
Richard yma.

## 22 EBRILL 1915

Cychwyn Win y boreu. Ei danfon at y ffridd Penybryn. Hithau yn mynd ar bike adref. Mam yn mynd ir seiat. Minnau yn garddio yn yn yr ardd fach. Tomi Hendre yma min nos.

## 23 EBRILL 1915

Myfi yn mynd i'r Sarnau y boreu. Hau haidd yn Cae Bach Ucha. Myfi yn mynd ir Byrgoed min nos. Ella yn dod yma. Modryb Erwfeirig yn papuro yn Tycroes.

## 24 EBRILL 1915

Myfi yn mynd ir Bala y prydnawn, gweled William yno. Yna mynd yw ddanfon i Fedwarian. Mrs Jones Coedybedo yn cario ein papur papuro adref.

## 25 EBRILL 1915

Myfi yn yr Hendre yn fy nghinio. Ellis yn mynd ir Byrgoed y p'nawn.

## 26 EBRILL 1915

Ellis yn mynd ir Bala y prydnawn. Minnau yn mynd min nos i ffitio fy costume i Mount Peace.

## 27 EBRILL 1915

Golchi boreu, a'u cadw y prydnawn. Ellis yn mynd ir Bala min nos. Cael swper yn Penyffordd.

## 28 EBRILL 1915

Papuro a white washio fy llofft i. Ellis yn mynd ar hwrdd i Gynlas min nos. Uncle Jedwarian yno. Myfi yn mynd i'r Sarnau min nos i ordero mwy o bapur.

## 29 EBRILL 1915

Spring cleanio llofft pen gegin. Diwrnod poeth iawn. Y defaid yn mynd ir mynydd. Myfi yn myn i Erwfeirig min nos ac yna ir Sarnau.

## 30 EBRILL 1915

Myfi yn mynd i Erwfeirig ddwy waith y boreu. Modryb yn mudo i Tycroes. Myfi yn mynd ir Hendre min nos. Hwyl dda yno. Tomi Hendre yma. Myfi yn mynd ar bara adref.

# MAI

— 1915 —

## 1 MAI 1915

Papuro a white washio y parlwr. Tywydd ofnadwy. Edward yma yn trwsio fy mike. Ellis wedi mynd ir Bala. Myfi yn mynd ir Sarnau.

## 2 MAI 1915

Myfi yn fy nghinio. Mam yn Penyffordd yn ei the ag Ella yma.

## 3 MAI 1915

Golchi y boreu. Myfi yn mynd ir Bala min nos. Gweld Win ac Anwen yno. Minnau yn danfon Win adref. Cyfarfod RT ar y ffordd. Cael swper yn Penyffordd.

## 4 MAI 1915

Planu tatws y boreu. Cael llythyr oddiwrth Liz Pentre. Dechreu crafu cistiau y gegin a phapuro ychydig ohonynt (papur lliw derw). Richard yma min nos. J. Davies Llwyniolyn yn pasio.

## 5 MAI 1915

Corddi y boreu. Myfi yn anfon note ir Bryniau. Gorphen papuro cistiau y gegin. John Bryniau yma min nos dod ar gears tori i lawr yn ol. Ellis yn mynd ir Sarnau. Tynu y cwpwrdd gwydr oi le.

## 6 MAI 1915

Planu tatws y boreu. Hau rhesi y prydnawn. Llanast mawr papuro y gegin. John Williams Sarnau yma yn nol tatws ac yma yn ei dê. Myfi yn mynd ir seiat ac yn galw yn Tycroes. Tomi Hendre a Hugh yma.

## 7 MAI 1915

Papuro y gegin y boreu a rhoddi pethau yn ei llefydd. Golchi pethau y cwpwrdd gwydr. Richard yn dod ar bara yma. Myfi yn mynd ir Bala. Mynd ar bike i R. Hugh yw drwsio. Cael fy costume.

* Casgliadau'r Rhyfel Byd Cyntaf

// *Diwrnod y suddodd y Lusitania*

## 8 MAI 1915

Gorphen y gegin. Ellis a minnau yn mynd ir Bala. Myfi yn mynd ir Pentre Cwmtirmynach dros y Sul. Mrs Edwards a Robert yn y Bala Garw yno min nos.

## 9 MAI 1915

Mynd ir capel y boreu + nos. Mr + Mrs Edwards (Pentre) yn mynd i Nantfach.

## 10 MAI 1915

Maggie a minnau yn mynd i lawr at Nanthir i weld y "Germans" yn mynd am dro. AS, Liz, Maggie a minnau yn mynd i Hafodyresgob in swper. Annie Blodwen yno. Y pedair yn dod i fy nanfon i ir station.

## 11 MAI 1915

*Carrega yn yr hadau y boreu. Myfi yn carrega yn y prydnawn. Myfi yn mynd a tatws ir Sarnau min nos. Cael swper yna. Richard a Walter Hanford yn saethu yn yr "Erw".*

* Blog Dyddiadur Kate // *Carcharorion Rhyfel*

## 12 MAI 1915

*Mammam yma yn ei thê. Ellis a Richard yn mynd i Tycroes i nol chest of drawers. Myfi yn mynd ir post. Anfon am lwy jam i Sheffield. Mam yn mynd i ddanfon mammam ir Hendre. Tomi a Kate Ellen yma.*

## 13 MAI 1915

Diwrnod gwlyb iawn. Ellis yn Penybryn yn planu tatws. John Williams Sarnau yma yn nol tatws. Myfi yn mynd ir Hendre min nos ac oddiyno ir seiat. Galw yn Penyffordd wrth ddod adref.

## 14 MAI 1915

Pawb yn mynd ir fair (myfi ar ol cinio). Mag yn dod adref o Lerpwl gyda'r tren 4.

## 15 MAI 1915

Mag a Maggie Lizzie yn mynd ir Bala. Minnau a Win yn mynd hyd y ffordd. Ein pedair yn mynd i Lanycil i gladdu Mr Pugh Nantfach. Win a minnau ar bikes.

16 MAI 1915

Ir capel y boreu. Lewis Pentredwr yn pregethu yn y Cefn y nos.

17 MAI 1915

Richard yn mynd ir Bala. Mam yn mynd i Fedwarian. David No 1 yma trwy'r dydd bron. Ellis yn mynd i bwyllgor y tarw min nos. Morgan Hughes a S.W. Jones Coedybedo yma min nos yn chwareu cardiau.

18 MAI 1915

Ellis yn mynd ir Bala i nol "sheets" at y shed wair. G Ellis Penyffordd yma yn ei thê. Ellis a minnau yn mynd ir mynydd min nos, dod adref heibio Hendre Cwmain. Auntie Grace yma min nos.

## 19 MAI 1915

Golchi y boreu. Cymanfa yr Annibynwyr yng Nghorwen. San a minnau yn mynd i weld y motor yn cychwyn or Sarnau. William Fedwarian, Bob Brynmoel a Morgan Hughes yma min nos. Hau maip yn cae bryn.

## 20 MAI 1915

Ellis yn mynd ir Bala i nol "coed pren" y shed. Mam yn mynd gydag ef ac yn cerdded adref. Mam yn mynd i Hendre Cwmain min nos. Minnau yn mynd ir Seiat.

## 21 MAI 1915

Grace yn dod ar bara yma yn prydnawn. Minnau yn mynd ag ef adref ac oddiyno ir cynierth. Ethel yn well. Wedi bod yn cerdded hyd y "landing". Dod adref heibio Erwfeirig.

## 22 MAI 1915

San yma y boreu. Ellis yn Penybryn yn teilo. Myfi yn mynd ir Bala hefo car Hendre. Cael run adref. Mynd i Erwfeirig min nos. Cael swper yn Penybryn.

## 23 MAI 1915

Ir capel y boreu. Ellis yn yr Hendre yn ei ginio. Ella yma yn ei thê.

## 24 MAI 1915

Mynd i Lanuwchllyn ir Eisteddfod. John Jones Hendre Cwmain yma yn dechrau tori tyllau i pyst y shed wair. Johnnie Owen Pentre a Richard yma min nos.

* Blog Dyddiadur Kate // *A oes heddwch? Eisteddfodau a'r Rhyfel Byd Cyntaf*

## 25 MAI 1915

Ellis a mam yn mynd a "Beauty" i ffridd yr Hendre (John Jones yma). Urias Hughes yn cychwyn i Lerpwl. David Maldwyn Morris Cynlas yma min nos.

## 26 MAI 1915

Pobi bara ceirch y boreu. Scufflo tatws y prydnawn. John Jones yma (concert yn Glanrafon min nos). Myfi yn cael cur yn fy mhen.

* Blog Dyddiadur Kate // *Pobi Bara Ceirch*

## 27 MAI 1915

John Jones Hendre yma yn prydnawn. Ellis, Richard a Tomi yn mynd i nol "pyst" y shed wair ir Bala y boreu. Mam yn mynd ir Bala. John Robert Jones Hendre yn galw yma y boreu. Mammam yma min nos. John Jones yn gorphen yma. Myfi yn mynd ir seiat. J. R. Jones yma.

## 28 MAI 1915

Ellis a minnau yn priddo tatws y boreu. Ellis yn mynd i Fedwarian y prydnawn. Grace yn dod ar bara. Myfi yn mynd a hwy adref Mam yn mynd ir Hendre min nos. T Alun Williams Talsarn ac O. Hughes Clynnog yno (students).

## 29 MAI 1915

Ellis a Richard yn cario coed (pobty). Llwyth o Cynlas a dau lwyth o ffridd Tyisa. Myfi yn mynd ir Bala ar ol te. Win yno wedi bod yn mhriodas ei chefnder Ted Williams. Anwen yn y Bala.

## 30 MAI 1915

Miss Roberts Brynmelyn a Miss Davies Tynycoed yma min nos.

## 31 MAI 1915

Gladys Fedwarian yma ar ol cinio. Myfi yn mynd i'r Bala at y "banc" yna i fyny i Fedwarian. Cyfarfod Gladys wrth ddod adref.

MEHEFIN

— 1915 —

## 1 MEHEFIN 1915

Mammam, Ellis a Mam yn mynd i hel shenti i ochr Cerrygydrudion. Myfi yn mynd ir Hendre y prydnawn.

## 2 MEHEFIN 1915

Golchi y boreu. Myfi yn mynd ir Byrgoed min nos. Yr hen as yn "dengid" ar fy ol. Tomi Hendre yma min nos.

## 3 MEHEFIN 1915

Ellis a mam yn mynd ir ffair (cerdded). San yma yn ei thê. Urias Hughes Rhydisa yma yn treulio ei brydnawn. Myfi yn mynd ir seiat Mam yn hwyr yn dod adref. Mary Lizzie Edwards (shop) yn fy nanfon.

## 4 MEHEFIN 1915

Myfi yn mynd ir Bala ar ol tê (i brynu esgidiau). Trial Morgan Lloyd yn y Bala – ollwng ar feichafon o £60 ei hun a £60 ei deulu David Davies (Penbraich) Cynlas yma min nos. Circus yn y Bala.

## 5 MEHEFIN 1915

Myfi yn mynd i Fedwarian am y week end. Anwen yn fy nghyfarfod yn y Bala. Gwlaw mawr. Mr Burns (visitors) yno.

## 6 MEHEFIN 1915

Win yn dod i Fedwarian am y Sul. Ir capel y boreu ar nos.

## 7 MEHEFIN 1915

Pobi bara ceirch yn y boreu. Diwrnod mwll hynod. Anwen yn mynd i gyfarfod Mrs Burns o Frongoch min nos. Myfi yn cael cwmni J Davies Llwyniolyn adref.

* BLOG DYDDIADUR KATE // *'Week End' yn Rhyduchaf*

## 8 MEHEFIN 1915

Ellis yn trwsio fy mike min nos. David Owen Jones Derwgoed a Dr Maldwyn Morris Cynlas yma min nos. Fewythr Evan yn galw yma min nos.

## 9 MEHEFIN 1915

Myfi yn mynd ir Sarnau y boreu. Ein tri yn mynd ir Hendre min nos. Johnny Thomas yn dod yma wedi i ni fynd i'n gwelau i'n hysbysu fod ef a D Thomas Llanuwchllyn yn dod yma dranoeth.

## 10 MEHEFIN 1915

Codi pyst y shed. Myfi yn mynd ir seiat. Codi yn foreu iawn. Myfi yn mynd i Penybryn i ymorol am help. Yna i Hendre Cwmain i ymorol am John Jones. Pawb yno heb godi. D Thomas, J Thomas, J Jones Hendre Cwmain, Tomi Hendre a Fewythr Hugh yno.

## 11 MEHEFIN 1915

Auntie Grace, Ellis a mam yn mynd i Frynbedw y prydnawn. Myfi yn mynd ar bara adref. Anwen yn dod ir Hendre. Ella a gwlaw mawr. Myfi yn danfon Auntie Grace. B P yma min nos.

## 12 MEHEFIN 1915

Mammam yn dod yma ar ol tê. San yn dod yma. Ellis yn mynd ir Bala. Myfi yn mynd ir Hendre i gyfarfod Anwen min nos.

## 13 MEHEFIN 1915

John Bryniau ag Ella yma yn eu cinio. David yma yn ei dê.

## 14 MEHEFIN 1915

D Thomas Llan'llyn, J Thomas, R Jones Erwfeirig, Richard, a Fewythr Hugh yma yn codi y "cyplau". Anwen a minnau yn mynd ir Byrgoed ag Anwen adref hefo'r tren.

## 15 MEHEFIN 1915

J Thomas yma. Mam yn mynd ir Hendre i gyfarfod rhai Erwdinmael. Myfi yn mynd ir Bala ir clwb. Diwrnod poeth iawn. William a D Maldwyn yn fy nghyfarfod wrth ddod adref.

## 16 MEHEFIN 1915

J Thomas a Tomi Hendre, Ellis yn mynd i Bwlchmawr i olwg merlen ir Hendre. Teulu Tynerw yn pasio ol a blaen i fyny coed. Myfi yn mynd ir Highlands. Win yn fy nghyfarfod.

## 17 MEHEFIN 1915

Diwrnod poeth iawn. Win a minnau yn mynd ar ceffyl ar car i gyfarfod Mr a Mrs o'u holiday yn ochr Llanfachreth. BP yn cael helfa dda o bysgod.

## 18 MEHEFIN 1915

Anfon dipyn o bysgod adref. Sassiwn Plant Llidiardau. Emrys yn cael mynd yno. Anwen ag Ella yno yn y Sassiwn Plant. Diwrnod hynod o braf. Mary Lizzie Pandy yn cael tarawiad o appendicitis.

* Blog Dyddiadur Kate // *'Oes y dillad gore'*

## 19 MEHEFIN 1915

Gwernbusaig, Cynythog Ganol ar Cloddiau yn golchi defaid. Mag a minnau yn mynd a bwyd iddynt. Win a minnau yn mynd i Rhyducha ar Pentre min nos.

## 20 MEHEFIN 1915

At y llyn y prydnawn. Ir capel min nos.

## 21 MEHEFIN 1915

Y Mrs ag Emrys yn mynd i Weirglodd-ddu Llanuwchllyn. Win, Mag, BP a minnau yn mynd i Cefnmaes in swper. Hwyl dda iawn.

## 22 MEHEFIN 1915

Win yn mynd ir Pentre i helpu Grace olchi gwithbanau. Mag yn dod i fy nanfon i Fedwarian. Mam a mammam yn mynd i Gorwen. Y ceffyl glas yn mynd or Hendre. Richard yma. Golchi defaid.

* Blog Dyddiadur Kate // *Golchi Gwrthbannau*



Golchi dillad ym Mrechfa, tua 1900.

## 23 MEHEFIN 1915

Ellis, mam ac Auntie Grace yn mynd ir Pentre (Talybont). Galw yn Fedwarian. Myfi yn anfon llythyr ir Fron. Tomi Hendre, John Hughes a D Davies Cynlas yma min nos. Richard yn dod yma min nos.

## 24 MEHEFIN 1915

Myfi yn mynd ir Sarnau y boreu. Mammam a mam yn mynd ir Bryniau yw tê. Myfi yn mynd ar bara adref ac yn mynd ir Pandy i edrych am Mary Lizzie. Galw yn yr Hendre wrth ddod adref.

## 25 MEHEFIN 1915

Sassiwn Plant. Ella a minnau yn gwneyd tê gyda'n gilydd. Win yn dod yma. Anwen yn dod ir Hendre. Eu dwy yn cael tê yn yr ysgoldy K Ellen yma yn ei swper. Dosbarth Ellis Davies Llwyniolyn yn cael tynu eu lluniau.

## 26 MEHEFIN 1915

Ellis a mam yn mynd ir Bala y boreu. Win a finnau yn mynd ir Bala ar ol tê ac yna ir Byrgoed (cyclo). Hwyl ofnadwy. S W Jones Coedybedo a BP yma min nos. Richard yn dod yma. Ellis yn mynd i Talybont i olwg merlen ir Hendre.

## 27 MEHEFIN 1915

Win a minnau ir capel dair gwaith. Ir Hendre in tê a'r Henhafod in swper.

## 28 MEHEFIN 1915

Myfi yn mynd ag esgidiau Ellis ir Hendre y boreu (eisiau ei gwadnu). Win yn mynd adref ar ol tê. Minnau yn ei danfod i Lanfor. Richard yma min nos. Mammam yn mynd i Tynybryn (Talybont) i olwg merlen.

## 29 MEHEFIN 1915

Auntie Fedwarian yn yr Hendre. Auntie Grace a hithau yn dod yma min nos. Ellis yn mynd i Fedwarian gydag Auntie ac yn aros yno i gysgu. J Hugh Thomas a Richard yma min nos.

## 30 MEHEFIN 1915

Ellis ac Uncle Fedwarian yn mynd ir Feidiog (Trawsfynydd) i gyneifio. Aros yno noswaith. Storm o fellt a tharanau yma.

GORFFENNAF

— 1915 —

## 1 GORFFENNAF 1915

Golchi y boreu. Mam yn mynd ir seiat. Mr Jones Gweinidog yma yn ei dê. Grace Penbryn yn rhedeg yma min nos. Tomi Hendre yn Penbryn yn cael llifo ei bladur. Ellis yn dod adref or Feidiog. Richard a John Vaughan yma.

## 2 GORFFENNAF 1915

Richard yn llosgi ei "arddynau" yn bur arw gyda pitch. Myfi yn mynd ar bara adref ac oddiyno ir Sarnau. Mr Hughes Parc ac ac Humphrey Davies yno.

## 3 GORFFENNAF 1915

Ellis yn Llwyniolyn yn cyneifio. Myfi yn mynd ir Bala ar ol tê i ymofyn birthday present i Ellis. Gwlaw mawr. Bob Lloyd yma min nos

## 4 GORFFENNAF 1915

Mam ir Hendre yw chinio a Penyffordd yw thê. Myfi yn mynd i ddanfon Mary Jane Jones Tanyffordd.

## 5 GORFFENNAF 1915

Pobi bara ceirch dros y cynheuaf. Ellis yn Pentre (J.O.) yn cyneifio. Uncle Fedwarian yn dod yma. Myfi yn mynd ir Pentre. Myfi yn mynd ir Cyf Gweddi.

## 6 GORFFENNAF 1915

Ellis yn Pentre (S.D) yn cyneifio. Myfi yn mynd ir Sarnau min nos. Richard a D. Davies Cynlas yma min nos. Gwlaw mawr ofnadwy.

## 7 GORFFENNAF 1915

Gwlaw trwy'r dydd. Myfi yn mynd ir Pandy ar ol tê ac oddiyno ir Hendre. Gwlaw mawr iawn. David yma a Richard. B. P yma.

## 8 GORFFENNAF 1915

Ellis a mam yn yn Pentre yn cyneifio. William Fedwarian a William Cwmhwylfod a Morgan Hughes yma min nos. Myfi yn mynd i Gynlas y boreu. Galw yn Penyffordd. Bobbie wedi mynd i Fedwarian.

## 9 GORFFENNAF 1915

Rhoddi y peiriant tori gwair mewn hwyl. Mam yn mynd ir Byrgoed. Ellis yn mynd ir mynydd. Minnau yn mynd i Gynlas min nos i hel eirin mair. Richard a Morgan Hughes yma min nos.

## 10 GORFFENNAF 1915

Priodas Richard. Myfi yn mynd ir Byrgoed y p'nawn. Mam yn y ffair. Ellis yn cwyno. Bob Price yma yn cysgu.

## 11 GORFFENNAF 1915

Gladys Cwmhwylfod yma yn ei chinio. David No 1 yma yn ei dê.

## 12 GORFFENNAF 1915

Myfi yn mynd ir Hendre y boreu i nol "skillet". Cael lot o hen flouses gan Auntie Grace. Gwneyd jam eirin mair y p'nawn. Myfi yn mynd ir Bala min nos i nol springs ir engine tori gwair. Gladys Cwmhwylfod yno. Ein dwy yn prynu presant i Richard.

## 13 GORFFENNAF 1915

Ellis yn mynd ir Hendre. Gladys yn galw yma ar ei ffordd i Tydandderwen. Myfi yn ei danfod ir Sarnau ac yn mynd oddiyno i Typella i nol eirin mair. Cyfarfod Bob Lloyd wrth ddod adref.

## 14 GORFFENNAF 1915

Golchi y boreu. Gladys yn dod yn ol o Tytandderwen.

## 15 GORFFENNAF 1915

Mynd i nol burym ir Cefn y boreu. Emma Hanford yn dod i nol tins y bara. Ellis yn yr Hendre. Mam a minnau yn mynd ir seiat. Myfi yn mynd a fy (nghard insurance) i Mr Jones. Grace Penybryn yn cwyno. Cael dipyn i eirin mair yn y terrace.

## 16 GORFFENNAF 1915

Gwlaw mawr. Mam yn mynd ir Hendre min nos. David Roberts Pentre yma min nos. Myfi yn mynd ir Sarnau wrth nol y gwartheg. Ellis yn cwyno.

## 17 GORFFENNAF 1915

Gwlaw. Ellis yn mynd ir Bala ar ol tê. Myfi yn mynd ir Sarnau min nos. Penodi Miss Susie Jones yn athrawes yn ysgol Llandderfel. Anwen yn cael notice i gael cowpog oddiwrth y Red Cross.

## 18 GORFFENNAF 1915

William Fedwarian a Tom Pentre Cwmtirmynach yma.

## 19 GORFFENNAF 1915

Ellis, mam a fewythr Hugh yn mynd a'r gwlan ir Bala. Gwlaw mawr. Myfi yn mynd ir Sarnau min nos. Gorphen fy "camisole top". Dechreu un i Jin Thomas.

## 20 GORFFENNAF 1915

Gwlaw. Ellis yn mynd ir mynydd ar ol tê. Thomas Davies Cwmhwylfod yma min nos. Myfi yn cael presant gan Mrs Williams Derwgoed. Tomi Hendre ag Arthur Rees yma. Myfi yn y Sarnau.

## 21 GORFFENNAF 1915

Ellis a minnau yn tori darn cae tan ty y boreu. Ei fydylu y prydnawn. Robert Daniel Jones yn dod yma. San yma y prydnawn. Myfi yn mynd i Tynyffridd min nos.

## 22 GORFFENNAF 1915

Gwlaw. Ellis yn mynd i Fedwarian ar ol tê. Y wraig ieuanc yn dod i Penybryn. Myfi yn mynd ir Hendre min nos. Oddiyno ir seiat. Mam a mammam yn mynd i Penybryn min nos.

## 23 GORFFENNAF 1915

Gwlaw. Myfi yn mynd a llythyrau i'r post. Mr A Mrs Arwel Hughes Parc yma min nos. B. P. yma. Mrs Owen (ieu) yn mynd adref o Penybryn.

## 24 GORFFENNAF 1915

Gwlaw. Ellis yn yr Hendre.
Richard, John Vaughan a Bob Lloyd
yma min nos. Richard mewn poen
mawr yn ei wÃ‡r (pen ddyn). Tori
y gotel.

> GEIRIADUR PRIFYSGOL CYMRU //
> *Gotel = Llain o dir yn culhau at un pen iddo, congl fechan, cilfach; cae bychan, clos.*

## 25 GORFFENNAF 1915

Myfi yn yr Hendre yn fy nghinio.
Ella yma yn ei thê. Mam yn
Penyffordd yn ei thê.

## 26 GORFFENNAF 1915

Mam yn mynd ir Hendre. Ellis yn mynd ir mynydd ar ol tê. Ellis Davies Cynlas, John Hughes, D. M. Evans Tynybryn a Tomi Hendre yma min nos. John yn dod a'i lun. Richard yma. Gwlaw mawr.

## 27 GORFFENNAF 1915

Troi y gotel a chwalu ychydig ar fydylau cae tan ty. Gwlaw mawr ofnadwy y p'nawn. Ellis Davies Cynlas yn dod heibio yma ir mynydd. Ellis yn mynd yw helpu i ddal wyn Penybryn. Grace Penybryn yn dod a llun dosbarth Ellis Davies Llwyniolyn yw ddangos.

## 28 GORFFENNAF 1915

Ewythr Hugh yma y boreu. Ellis yn tocio gwrych ffridd wth ffordd. Richard yn mynd ir felin. Troi y gotel a'i chael yw mydylau. Richard yma min nos. Myfi a chric yn fy nhwâr.

## 29 GORFFENNAF 1915

Tori haner hadau darn isa cae ffordd. Myfi yn mynd ir seiat. Kate Ellen (South) yn Ty Cyntaf.

## 30 GORFFENNAF 1915

Tori haner uchaf yr hadau. Gwlaw mawr ofnadwy. Richard yn dod ar bara. Myfi yn mynd a hwy adref. Ewythr Evan Penyffordd yma yn cael tê.

## 31 GORFFENNAF 1915

Glanhau y parlwr a pantry y boreu. Gorphen glanhau y ty yn gynar. Myfi yn mynd ir Bala ar ol tê. Cael cwmpeini Mrs Thomas shop adref. Kate Ellen, Auntie Grace a minnau yn mynd ir fynwent wrth ddod adref. J K Jones Hendre, S. W. Jones Coedyfedw a Richard yma.



Fferm Derwgoed

AWST

— 1915 —

## 1 AWST 1915

Mr & Mrs Rowlands Osborne House yma yn eu te a'u swper. Tom Cedar a David yma yn eu swper.

## 2 AWST 1915

Golchi y boreu. Gwlaw trwy'r dydd. Ein tri yn mynd ir Cyfarfod Gweddi min nos. Cynulliad mawr iawn. Gwlaw ofnadwy wrth ddod adref a thrwy'r nos.

## 3 AWST 1915

Corddi y boreu. Myfi yn smwddio. Fewythr Evan yma yn ei ginio. Troi hanes isaf yr hadau ai gael yw fwdwl. Myfi yn cychwyn ir Byrgoed ond troi yn ol ar ffridd llyn. Taranau trymion iawn.

## 4 AWST 1915

Gwlaw. Myfi yn mynd ir Byrgoed ar ol tê. J. R. Jones Hendre Cwmain yma y boreu. Efe yn troi yn ol i Manchester y prydnawn.

## 5 AWST 1915

Troi darn uchaf yr hadau ar ol cinio, ei fydylu ar ol tê. Ellis yn mynd i fydylu i Penybryn ar ol i ni orphen. Myfi yn mynd ir seiat. B. P. yma min nos.

## 6 AWST 1915

Fewythr Hugh yn dod ar bara yma. Ellis a Richard yn mynd ir mynydd ar ol tê. Dod a 2 oen a dafad adref. Mam yn mynd ir Hendre. D. M. Morris a D. Davies Cynlas yma min nos. Gwlaw.

## 7 AWST 1915

Corddi y boreu. Gwlaw mawr trwy'r dydd. Myfi yn mynd a menyn ir Sarnau ac yn mynd a dwy wningen i Penyffordd. Auntie Grace yn y Cefn. Teulu Magdala yn dod i nol.

## 8 AWST 1915

Rev E Evans Gwyddelwern a aeth ar genhadaeth i Nigeria y nos. Mam ac Auntie Grace yn mynd ir Llan. Rev Peter Price Rhos yno.

## 9 AWST 1915

Gwlaw. Myfi yn mynd ir Bala y prydnawn, ac oddiyno i Fedwarian. Auntie yn dod ir Bala min nos. Richard yma min nos.

## 10 AWST 1915

Ewythr Evan a Tomi yma yn eu tê. Ellis yn mynd ir mynydd ar ol tê. Mam yn mynd ir Hendre. Myfi yn mynd ir Sarnau ac ir Post. Hel mavon cochion wrth ddod adref. Gwlaw.

## 11 AWST 1915

Gwlaw. Sychu ychydig y prydnawn. Myfi yn mynd ir Bala ar ol tê. Llythyr i Ellis Davies Llwyniolyn yn dod yma.

## 12 AWST 1915

Rhyw oleuadau yn yr awyr wrth ben "Berwyn" min nos. Myfi yn mynd i fy ngwely yn hynod o gynar.

* Erthygl // *Y glaw mawr*

## 13 AWST 1915

Mynd ir Sarnau y boreu. Ellis yn tori Cae Gadles. Efe a minnau yn tanu yr ystodiau, cario mwdwl Caer ffordd ar ol cinio. Grace yn dod ar bara. Myfi yn mynd a hwy adref. Cael swper yno. Richard yma min nos.

## 14 AWST 1915

Ellis yn mynd ir efail y boreu. Efe yn mynd ir Hendre y prydnawn. Gwlaw at 3 o'r gloch. Myfi yn mynd ir Hendre min nos. Ellis a finnau yn cael hwyl ofnadwy.

## 15 AWST 1915

Mam yn yr Hendre yw chinio a Penyffordd yw thê. Myfi adref y prydnawn. Rev O. Ellis yn pregethu.

## 16 AWST 1915

Myfi yn mynd ir Ffactory y boreu i edrych am Indian Meal. Ellis yn mynd ar drol yw nol. Tori ychydig yr ochr uchaf i lwybr Cae Morris (efo pladur). Troi Cae Gadles. Râs fawr yw hel yn fydylau a chario 3 mwdwl. Auntie Grace a Grace Penybryn yma min nos.

## 17 AWST 1915

Corddi y boreu. Ellis yn mynd ir Hendre y prydnawn. Diwrnod dwl iawn. Ellis yn mynd ir Sarnau min nos. Simon William Jones yn dod gydag ef adref.

## 18 AWST 1915

Tori dros haner gwndwn Cae Morris y boreu. Tanu mydylau Cae Gadles a throi o tycha llwybr Caer Morris y boreu. Tanu ystodiau ar ol cinio a throi Cae Gadles. Cario Cae Gadles ar ol tê. Marwolaeth brawd Mr Hughes (Parc) yn Ffestiniog.

## 19 AWST 1915

Tori haner arall gwndwn Cae Morris. Tany yr ystodiau a throi yr haner uchaf. Cario y rhan fwyaf o'r haner uchaf a mydylu ychydig o'r weirglodd (Cae Morris). Myfi yn mynd ir Sarnau min nos.

## 20 AWST 1915

Tori haner isaf y weirglodd y boreu. Cario haner isaf gwndwn Cae Morris. Richard yn dod ar bara. Myfi yn mynd a hwynt adref ac ir Sarnau min nos.

## 21 AWST 1915

Tori haner uchaf y Weirglodd. Myfi yn mynd i nol tatws i Cae Bryn y boreu. Ellis a minnau yn tanu ystodiau y Weirglodd a phigffyrch cyn cinio. Cario mydylau Caer Morris ar ol cinio. Gorphen tanu ystodiau y Weirglodd ar ol tê.

## 22 AWST 1915

Myfi yn yr Hendre yn fy nghinio a Penyffordd yn fy nhe. Ellis yn mynd ir mynydd ar ol tê.

## 23 AWST 1915

Diwrnod poeth iawn. Myfi yn mynd i Erwfeirig y boreu. Tori weirglodd Cae Morris. Troi y Weirglodd Isa cyn cinio. Ei chario adref i gid y p'nawn.

## 24 AWST 1915

Hel olion y Weirglodd y boreu. Cario hulog Cae Morris y prydnawn. Myfi yn mynd ir Sarnau min nos. Dora Jane Tynyfedw yno.

## 25 AWST 1915

Caerio weirglodd Cae Morris. Ellis a mam yn mynd ir Hendre min nos. Edward yn dod i nol bike R. Daniel. Myfi yn mynd i'r Sarnau min nos.

## 26 AWST 1915

Dechreu tori yr haidd (show Cerrygydrudion). Mam yn mynd ir Byrgoed ar ol tê. San yma yn ei thê. Ellis yn mynd ir mynydd min nos.

## 27 AWST 1915

Nain Byrgoed yn mynd i Treharris. Mammam yma min nos. David No 1 yma. Fewythr Evan yn galw yma wrth fynd adref. Ellis a minnau efo'r haidd yn Cae bach Ucha.

## 28 AWST 1915

Gorphen tori yr haidd (Cae bach Ucha). Fewythr Evan yma gyda ni y p'nawn. Tomi gydag ef. Ellis yn mynd ir Bala min nos. Myfi yn mynd a fy mike i gael tyre at J. Thomas.

## 29 AWST 1915

Ellis yn yr Hendre yn ei ginio. B. P. yma. Dod y boreu.

## 30 AWST 1915

Ellis yn mynd a'r moch ir Bala (308 – 270). Myfi yn mynd ir Hendre ar ol tê. San yn cwyno. Ellis yn mynd i Brynpader i olwg moch ac yn eu prynu.

## 31 AWST 1915

Ellis yn mynd ir Hendre y boreu. Mynd i Brynpader ar ol cinio i nol y moch. Golchi gwrthbanau y boreu. Myfi yn mynd gyda Mrs Thomas i Goed Ucha i nol coeden at gyneu tan.

MEDI

— 1915 —

## 1 MEDI 1915

William Fedwarian yn dod yma min nos. Ellis yn mynd ir Derwgoed ar ol tê. Tom bach a david Morris yma min nos.

## 2 MEDI 1915

Dechreu tori ceirch yn Cae Ffordd. Disgwyl Auntie Fedwarian yma ben boreu. Auntie Grace a hithau yn dod ar ol tê. Y ddwy wedi bod yn Cwmhwylfod. Mam yn mynd gyda hwynt i Penybryn. Gladys Davies a M J Roberts yma yn hel arian y Genhadaeth. Richard ar wraig yma min nos. Morgan Hughes yma.

## 3 MEDI 1915

Tori ceirch Cae Ffordd. John Evans ar wraig, ar bachgen bach (Gwynfor) a D. Ellis Pentre yn dod yma o Penybryn. Mynd oddi yma ir Hendre min nos. Ninnau ein tri yn mynd gyda hwynt.

## 4 MEDI 1915

Tori darn bach o geirch yn Cae Ffordd. Cawod o law ar ol cinio. Myfi yn mynd ir Bala ar ol tê. Prynu het navy. Gweld trenied o Canadians o Trawsfynydd yn pasio trwyr Bala ir ffrynt. Siarad dipyn ag R. W. Evans Tydraw yn y Bala. Rhoddi note iddo fyn i Win.

## 5 MEDI 1915

Mam yn yr Hendre yn ei chinio. Ellis yn Penyffordd yn ei dê. Rev Evan Jones Adwy Clawdd a Dr Griffith yn ‘gethu.

## 6 MEDI 1915

Ellis yn mynd ir Bala i bwyso moch tewion yr Hendre. Dechreu tori ffridd wrth ffordd ar ol cinio. Diwrnod braf iawn.

## 7 MEDI 1915

Tomi Hendre ag Arthur Rees yma yn tori y ffridd, gorphen y ffridd a thori y rhan fwyaf o geirch Cae Bryn. Myfi yn mynd ir Sarnau min nos. D M Morris a D Davies Cynlas yma min nos.

## 8 MEDI 1915

Show Llanuwchllyn. Kate Ellen a minnau yn mynd yno gyda'r tren 10.30 a.m. Ellis ag Edward yn cyclo yno. Diwrnod hynod o braf B. P. yma min nos.

## 9 MEDI 1915

Corddi y boreu. Taflu haidd Cae Bach Ucha ar ol cinio. Ei gario i gid ar ol tê. San yma yn ei thê. Myfi yn mynd ir seiat. Bedyddio mab bychan y Pentre "Ivor". Jane Roberts Ty'r Ysgol yn syrthio ar draws bwcied o ddwr.

## 10 MEDI 1915

Gorphen Cae Bryn. Cario grwn haidd Cae Ffordd ar ol tê a hel yd wellt cae bach ucha a cae ffordd. Myfi yn mynd ar bara adref Richard yma min nos.

## 11 MEDI 1915

Ellis a mam yn mynd ir ffair (car yr Hendre). Myfi yn mynd ar ol cinio (bike). Mynd i G. B. or Bala. Win yn y dref. Cyclo hefo Win adref. Noswaith braf iawn.

## 12 MEDI 1915

Rev. D. O. Ellis Hermon yn 'gethu yn Llidiardau. Cyfarfod ysgol yn y Parc.

## 13 MEDI 1915

Diwrnod braf. Teulu G. B. hefo'r yd yn Cae Merddyn. Edward Ffridd Isa yn dod yno y p'nawn. Mr & Mrs yn Ffridd Isa min nos. Win a minnau yn Cefnmaes a B. P. yn ein swper. Gwlaw mawr ofnadwy.

## 14 MEDI 1915

Gwlaw trwy'r dydd. Dim ffit at yr yd nag i minnau ddod adref. Chwareu games min nos. Hwyl ofnadwy. Rice yn clerkio min nos.

## 15 MEDI 1915

Diwrnod dwl. R. R. a Rice yn Cefnmaes yn gafra. L Jones yn tori yn Caer Merddyn. Gwlaw mawr ofnadwy y p'nawn a min nos. Cael games min nos. Hwyl ofnadwy.

GEIRIADUR PRIFYSGOL CYMRU //
*Gafra = clymu ŷd yn ysgubau i sychu.*

## 16 MEDI 1915

Diwrnod braf. Win yn dod gyda mi ir Bala y boreu. Myfi yn dod adref. Mam yn cwyno yw choes yn arw. Ellis yn yr Hendre hefo'r yd. Myfi yn mynd ir Sarnau min nos "i shopa".

## 17 MEDI 1915

Cychwyn "Popriq" i ffwrdd y boreu. Ellis yn mynd a hi i Bethel. 2 ddyniawed o Erwfeirig. Myfi yn mynd ir Hendre ar ol cinio. Tomi yma yn cario "Cae-Bryn". Richard yma min nos.

GEIRIADUR PRIFYSGOL CYMRU //
*Dyniawed = Buwch ifanc o flwydd i ddwyflwydd oed, bustach, eidion ifanc.*

## 18 MEDI 1915

Cario ffridd wrth y ffordd. Richard yma. Myfi yn mynd ir Sarnau min nos. Coes mam yn ddrwg. John Vaughan Jones Coedybedo yma min nos

## 19 MEDI 1915

Ella yma yn ei thê. Coes mam yn ddrwg.

## 20 MEDI 1915

Myfi yn mynd ir Hendre i gario y coed. Tomi yn dod yma gyda mi i nol llwyth or ffridd. Ellis yn mynd i Erw dinmael i brynu merlen i'r Hendre. Cael yr yd. Coes mam yn ddrwg.

## 21 MEDI 1915

Ellis yn Penybryn yn cario yd. Mrs Ellis Penyffordd yn dod yma y prydnawn. San a Tomi Penyffordd yma yn eu tê. Coes mam yn ddrwg. Geni mab yn Rhydlise gan Maggie Edith.

## 22 MEDI 1915

Gwladys Cwmhwylfod yn dod yma yn p'nawn gan feddwl mynd i Tytandderwen ond yn troi yn ol oddi yma. Myfi yn mynd ir Hendre yn fy nhŷ. Susie Jones, Claudia Roberts, Esther Evans a Lizzie Lloyd Sarnau yno. Hwyl iawn. William C'fod yma min nos.

## 23 MEDI 1915

Ellis yn yr Hendre yn cario yd (gwlaw). Myfi yn mynd ir Bala ar ol cinio cynar. Nol ffisig ag eli at goes mam. Susie Jones a Lizzie Lloyd ag Ella a San yma yn eu tê. Richard yn galw yma min nos.

## 24 MEDI 1915

Gwladys Davies, Gwladys Roberts a minnau yn mynd i Tytandderwen. Cychwyn ar ol cinio. Gwlaw garw i ddod adref min nos. Auntie Grace yn galw yma min nos. Richard, David Davies Cynlas a S. W. Jones Coedybedo yma min nos.

## 25 MEDI 1915

Ellis a Richard yn nol yr hen famogiaid i lawr o'r mynydd. Ella yn dod yma ar ol tê ac yn cookio. Myfi yn hel ychydig o fafon duon. Bob Lloyd yn dod yma min nos.

## 26 MEDI 1915

Ellis yn Penyffordd yn ei ginio. Mynd ir Byrgoed y prydnawn. Kate Ellen ag Ella ym yn eu tê.

## 27 MEDI 1915

Ellis yn mynd ir ffair. B. P. yma min nos. Edward Evan Roberts a David No 1 yma min nos. Myfi yn mynd ir Sarnau ac ir post Tomi Hendre a David M. Evans yn galw yma. Beauty yn dod a llo ar Cae Bryn yr Hendre.

## 28 MEDI 1915

Ellis yn mynd i nol Beauty adref o'r Hendre. Tomi yn dod ar llo bach yma yn y car. Mam yn mynd gydag ef yn ol ir Hendre. John Robert yma ganol dydd. Bob Lloyd yma yn prynu yr hen ddefaid. DMP a DD Cynlas yma min nos.

## 29 MEDI 1915

Y Gymanfa Ganu Sirol yng Nghorwen. Grace Penybryn a minnau yn mynd iddi. Hwyl dda. B. P yma min nos. Coes mam yn ddrwg.

## 30 MEDI 1915

Mr & Mrs Jones Gweinidog yn galw yma y prydnawn. Ellis yn mynd ir Sarnau min nos. Morgan Hughes yma. Coes mam yn ddrwg.

HYDREF

— 1915 —

## 1 HYDREF 1915

Mr Jones Caergai ar mam yma yn saethu. Ellis a Richard yn mynd gyda hwynt ar eu round. Myfi yn hel eirin y prydnawn. Mammam yn dod yma ar ol tê. Coes mam yn ddrwg.

## 2 HYDREF 1915

Ellis yn mynd ir Bala ar ol cinio. Ellis yn mynd at y Dr ei glin yn ddrwg. J R Jones Hendre yn galw yma wrth fynd yn ol i Manchester. David Henry Jones Coedybedo yma yn hel eirin y prydnawn. Fewythr Evan yma yn ei de. Coes mam yn ddrwg.

## 3 HYDREF 1915

Myfi yn yr Hendre yn fy nghinio. Ella yma yw thê.

## 4 HYDREF 1915

Ellis yn mynd i nol glo i Penyffordd. Efe a minnau yn hel eirin y prydnawn. Myfi yn mynd ir Cyf Gweddi. Ella yn dod ag Olive Oil or Bala. Coes mam yn ddrwg.

## 5 HYDREF 1915

Mab Caergai yn dod yma yn y boreu. Ellis yn nol llwyth o lo i ni. G. Ellis Penyffordd yma yn ei thê. Tomi Hendre yma min nos. Coes mam yn ddrwg.

## 6 HYDREF 1915

Myfi yn mynd ir Hendre min nos i nol y "skillet jam". Mynd a fy het felt ddu i gael triming glas arni. Ellis yn mynd a eirin i Gynlas.

## 7 HYDREF 1915

Y peiriant dyrnu yn y Bryniau. Cymanfa Ddirwestol Meirion yn y Bala. Myfi yn mynd i oedfaon y nos. Mary Lizzie Edwards (Pandy) yn brifo yn bur arw. Syrthio oddiar ei bike ar allt Tomengastell. Myfi yn cyd fynd a hi. B. P. yma.

* Blog Dyddiadur Kate // *Alcohol a Dirwest*

## 8 HYDREF 1915

Mr Jones Caergai ar ddau fab, a D Morris Roberts yma yn saethu. Myfi yn mynd i Landderfel i gladdu Mrs Ellen Roberts Teilo Street Lerpwl (merch Mrs Hannah Evans). Mynd ir Bryniau. Cael dipyn o afalau gan R. Roberts.

* Blog Dyddiadur Kate // *Llythyru yn ystod y Rhyfel Mawr*

## 9 HYDREF 1915

Sanen yn dod yma y boreu. Ella yma ar ol cinio. William ag Auntie Fedwarian yn dod yma y prydnawn. Ellis yn mynd ir Bala (ar car) ar ol godro cynar i committee y clwb.

## 10 HYDREF 1915

Ellis yn yr Hendre yw ginio. Ella yma yn ei thê.

## 11 HYDREF 1915

Ellis yn mynd ir efail y boreu. Robert Evans a Mrs Williams Derwgoed yn galw yma y p'nawn. Mammam yn dod yma min nos. Myfi yn mynd yw danfon adref. Ellis yn mynd i Bwyllgor y Tarw ir Cefn.

## 12 HYDREF 1915

Ellis a Richard yn mynd ir mynydd ar ol tê. Gwlaw mawr y prydnawn. William Fedwarian a D. Maldwyn Morris yma min nos. Cyfarfod Diolchgarwch yn Bethel.

## 13 HYDREF 1915

Major Jones, Howell Jones ag Edwin Jones yn dod ir Hendre. Modryb Penybryn yn mynd i Tanygarth yng nghiar E Lewis. Myfi yn mynd i Ty Cyntaf i nol benthyg gwn David min nos. S W Jones Coedybedo yma min nos.

## 14 HYDREF 1915

T J Jones Caergai yn dod yma i saethu y boreu. Yma yn ei ginio ai dê. Mammam ai visitors mynd i ochr Cerrygydrudion. Myfi yn mynd ar skelett adref ac oddiyno ir seiat.

## 15 HYDREF 1915

Codi tatws y boreu. Twymo y pobty y prydnawn. Godro yn gynar. Myfi yn mynd i Gyfarfod Diolchgarwch Rhydywernen min nos.

## 16 HYDREF 1915

Codi tatws trwy'r dydd. Fewythr Evan yn ein helpu y prydnawn. Ellis yn mynd ir Bala ar ol godro.

## 17 HYDREF 1915

Mammam yn dod yma yw thê. Rev W Foulkes Llangollen yn pregethu.

## 18 HYDREF 1915

Auntie Grace yn dod yma am dro min nos. Morgan Hughes yn galw yma. B. P. yn dod yma. Dod a tin o Boot Polish ini.

## 19 HYDREF 1915

Mam yn mynd ir Bala at y Dr. Cael eli i roi ar ei choes ganddo. Myfi yn mynd i Rhydlise i wledda min nos. Tom Hendre a D Davies Cynlas yma min nos.

## 20 HYDREF 1915

Edward yn dod ar newydd am farwolaeth hynod sydyn Dr Williams Bala. Thomas Davies yn galw yma min nos. Tom Hendre yn mynd i Bethel ar neges.

* Erthygl // *Y Dydd – Marwolaeth Dr Williams, Bala*
* Erthygl // *Yr Adsain – Marwolaeth Dr Williams, Bala*

## 21 HYDREF 1915

Cyfarfod Diolchgarwch yn y Cefn. Diwrnod hynod o oer. Mam yn y capel trwy'r dydd. Yn Penyffordd yn ei chinio ai thê. San yma ei chinio. Edward yma yn ei dê.

## 22 HYDREF 1915

Twymo y pobty a berwi y boiler ir moch. San yma yn ei thê. Myfi a hithau yn mynd ir Cyf Cyntaf Cymdeithas Ddirwestol y Merched. Mrs Charles Jones Llandderfel yno yn anerch. Hwyl dda.

## 23 HYDREF 1915

Corddi y boreu. Ella a finnau yn mynd ir Bala i weld claddedigaeth Dr Williams. Dros 80 o wreaths ar ei fedd. Myfi yn cael esgidiau newyddion yn Parc House. Tom ac Edward yma yn nol gwellt wedi ei falu. Annie Caewlff yn sal.

* Erthygl // *Y Llan – Angladd Dr Williams*

## 24 HYDREF 1915

Myfi yn mynd i Caewlff y boreu. Annie yn ddrwg iawn. Geni mab iddi ond bu farw ym mhen awr.

## 25 HYDREF 1915

Pawb yn mynd ir ffair. Robert Ifor Ellis Pwllyrhwyliaid yn dod yma. Annie Lloyd a Win yn y ffair. Hwyl iawn. Diwrnod hynod o oer Annie Caewlff yn bur ddrwg. Claddu y plentyn bach min nos.

## 26 HYDREF 1915

Ellis yn mynd ir mynydd y boreu yna yn mynd i Tynant i nol hesbyrniaid yr Hendre. Robert Ifor yn mynd ir Byrgoed a Penycefn Morgan Hughes yn dod gydag ef yma min nos.

## 27 HYDREF 1915

Corddi y boreu. Myfi yn mynd i Rydlise i ddweyd fod oen iddynt yn Penrallt. Yma mynd ir Cefn i Weld priodas Maggie Watkins Tynant ar Rev John Parry Newmarket. Dod trwy gaeau Erwfeirig adref hefo Auntie Grace. Cael parcel of Sheffield. Geni merch Osborne House.

* ERTHYGL // *Y Goleuad – Priodas Maggie Watkins*

## 28 HYDREF 1915

Mammam, Ellis, mam a fewythr Hugh yn mynd i Tynyffridd Dinmael am y diwrnod. Myfi yn mynd ir Hendre. John Jones Brynffynon yn dod yno.

## 29 HYDREF 1915

Twymo y pobty a berwi y boiler ir moch. Ellis yn mynd ir Bala min nos i nol dose ir llo (llo Beauty). John Williams Pantyneuadd yma yn cysgu. Morgan Hughes a D M Morris a D Davies Cynlas yma min nos.

## 30 HYDREF 1915

Cael llythyr o Fedwarian yn dweyd am alwad Anwen at y Red Cross i Newport Monmouthshire. Mr W Evans Bontbren yma y p'nawn. Myfi yn mynd ir Bala ar ol tê ac yn galw yn Osborne House. Cael golwg ar y ferch.

## 31 HYDREF 1915

Myfi yn Penyffordd yn fy nhê. Sul gwlyb iawn.

# TACHWEDD

— 1915 —

## 1 TACHWEDD 1915

Mammam yn dod yma ar ol tê cynar. Ellis yn mynd gyda hi adref ac oddiyno i Crynierth Bach. Myfi yn mynd i'r Cyfarfod Gweddi min nos.

## 2 TACHWEDD 1915

Golchi coleri y boreu. Ellis yn mynd ir Byrgoed ar ol tê cynar ac wedyn i oedfa gyntaf y Cyfarfod Misol yn Llandderfel. Rev J H Willliams Porthmadog yn pregethu.

## 3 TACHWEDD 1915

Myfi yn mynd ir C. M. yn y boreu. Mynd ir Byrgoed i fy nghinio a fy nhê. Gladys Davies a Gladys Roberts a Sanen yno yn eu tê. B. P. yn dod yno cyn mynd ir capel min nos.

## 4 TACHWEDD 1915

Mam yn mynd i Fedwarian. William yn dod i Gors Bach yw chyfarfod. Ellis yn cario maip. Myfi yn ei helpu y p'nawn ond yn cael bile ofnadwy ar ol tê. Tom Hendre yn nol gwellt ar ol tê.

## 5 TACHWEDD 1915

Corddi y boreu. Ellis yn mynd i Penybryn i ohirio rhoi ar y pobdy hyd dranoeth. Sale Hengaer Isa Llawrbettws. John Jones Ysgubor Fawr yma yn cael tori ei wallt min nos.

## 6 TACHWEDD 1915

Rhoddi ar y pobty a berwi y boiler. Grace yn dod ar bara ac yn dod yw nhol. Ellis yn mynd ir Sarnau i shopa min nos. Geni merch yn Cynlas.

## 7 TACHWEDD 1915

Ella yma yn ei chinio. Myfi adref y boreu.

## 8 TACHWEDD 1915

Ellis yn mynd ir ffair. Mam yn dod adref o Fedwarian. Fewythr Hugh yma min nos. John Hugh Thomas yma min nos.

## 9 TACHWEDD 1915

Diwrnod gwlyb iawn. Ellis yn ei wely y rhan fwyaf or diwrnod. Maggie Edith yn cael benthyg fy mike i fynd ir Bala y p'nawn. Tom yr Hendre yma yn nol gwellt. Susie Jones yn pasio yma i Rydlise.

## 10 TACHWEDD 1915

Corddi y boreu. Fewythr Evan Penyffordd yn galw yma y p'nawn. Ellis yn mynd ir Hendre min nos. D. M. Evans Tynybryn a Tom Hendre yma min nos. Myfi yn gorphen gwneyd nightdress i mi fy hun. Pinc tywyll.

## 11 TACHWEDD 1915

Yr injan ddyrnu yn Crynierth Mawr (Ellis yno). Myfi yn mynd ir Bala y boreu i nol ffisig Ellis. Myfi yn mynd ir seiat. Kate Cynlas yn cyd ddod a mi ir Sarnau.

## 12 TACHWEDD 1915

Tywydd mawr trwy'r dydd. Gwlaw a eira. Sale Dol Llychwyn Parc. Tom yr Hendre yn dod yma i nol gwellt wedi ei falu y boreu. Richard yma y boreu.

## 13 TACHWEDD 1915

Corddi y boreu. Cael llythyr oddiwrth Win. Yr injan ddyrnu yn Crynierth Bach (Ellis yno). Claddu Mrs Edwards Castell yn yn Gellioedd. Myfi yn mynd ir Bala ar ol tê cynar. Cael lift gan W. Jones (y Blawd). Cerdded adref.

## 14 TACHWEDD 1915

Eira mawr. Myfi yn mynd ir capel y p'nawn ar nos. Kate Cynlas yn dod i fy nanfon adref.

## 15 TACHWEDD 1915

Ellis yn mynd ir efail. Susannah yn mynd i Gynlas i aros. Sam Tedwarian yn dod ar ceffyl yma, yn barod i fynd i Gorwen dranoeth. S. W. Jones Coedybedo a David Roberts Pentre yma min nos. Tywydd mawr.

## 16 TACHWEDD 1915

Sam yn mynd i Gorwen yn y boreu. Y peiriant dyrnu yn yr Hendre. Ellis a minnau yno. Myfi yn mynd ir Bryniau min nos. Jennie Rhydlise yn ymadael o Penrallt. B. P. yma min nos. Eira mawr.

## 17 TACHWEDD 1915

Y peiriant dyrnu yn Tynycoed, ac yn symud i Tynllyn (12 o geffylau yn ei thynu). Ellis yn mynd ir Hendre min nos. Robert Jones Erwfeirig yma min nos yn nol y gwn. Ellis yn nol glo y boreu.

## 18 TACHWEDD 1915

Mr Rowlands Tanycoed yn galw yma dros y Swyddfa Ryfel a Morgan Hughes yma yn hel ticedi "dirwest". Myfi yn anfon llythyr at Anwen i "Newport". Ellis a minnau yn mynd ir seiat. Mary Shop yn dod i fy nanfon adref.

## 19 TACHWEDD 1915

Ellis yn lladd dafad. Y peiriant dyrnu yn Penycefn. Mr Roberts o Lanelidan yn rhoddi darlith yng nghyfarfod y Bobl Ieuainc "Ni Ein Hunain". Ellis yn mynd ar bara adref i Benbryn min nos.

## 20 TACHWEDD 1915

Ellis yn mynd ir Bala. Johnnie Thomas yma yn rhoddi ffram ir bwrdd bach. Myfi yn mynd ir Sarnau min nos. Tomi Hendre a William Cwmhwylfod yma min nos.

* Blog Dyddiadur Kate //
  *Beth ddigwyddodd i Tomi Hendre*

## 21 TACHWEDD 1915

Rice ac Ellis Pencelli yma. Gladys Fedwarian a J. W. Richards Ysgubor Fawr yma yn eu tê.

## 22 TACHWEDD 1915

Y peiriant dyrnu yn y Cablyd. Ellis yno. Symud i Rhydlise y p'nawn. Ellis a minnau yn malu gwellt. D. M. Evans Tynybryn yma min nos. Fewythr Evan yn galw yma.

## 23 TACHWEDD 1915

Y peiriant dyrnu yn Rhydlise. Diwrnod dwl a thamp iawn. Morgan Hughes a Williams Hughes Garthgoch yma min nos. David No 1 yma ac yn saethu yr hen ast "Nell".

## 24 TACHWEDD 1915

Y peiriant dyrnu yma. Priodas Win Tynyffridd. Diwrnod braf iawn. John Griffiths, Morgan Hughes, David William, D. M. Morris a D Davies Cynlas yma min nos. Hwyl fawr.

## 25 TACHWEDD 1915

Y peiriant dyrnu yn Penybryn. Gwlaw mawr ganol dydd. Gorfod stopio dyrnu. Arthur Morris yn hel trethi. Myfi yn mynd ir Hendre min nos, ac oddiyno ir seiat. Pob man yn llithrig fel gwydr.

## 26 TACHWEDD 1915

Y peiriant dyrnu yn Penybryn. Gorphen dyrnu yno tua canol dydd. Ei symud i Erwfeirig a dyrnu yno. Diwrnod braf iawn. Ei symud i Ysgubor Fawr min nos. Cyf Cymdeithas Ddirwestol y Merched. Papur gan J. E. Jones Tuhwnt ir Ffordd.

## 27 TACHWEDD 1915

Y peiriant dyrnu yn Ysgubor Fawr. Richard yn dod i nol y bara wrth fynd adref. Bob Lloyd Derwgoed a Tom Hendre yma min nos.

## 28 TACHWEDD 1915

Bob Lloyd yn codi cor i fynd ir Bala. Myfi yn yr Hendre yn fy nghinio. Ella yma yn ei thê.

## 29 TACHWEDD 1915

Malu gwellt trwy'r boreu. Ellis yn mynd a hwrdd i Gynlas (ei werthu). Myfi yn mynd ir Cefn ar ol tê (i siopa). Claddu Laura Evans Caepant (Tynrhos).

## 30 TACHWEDD 1915

William Fedwarian, Morgan Hughes a D Maldwyn Morris yma min nos. Tywydd garw. Llithrig fel gwydr.

# RHAGFYR

— 1915 —

## 1 RHAGFYR 1915

Tywydd budraidd iawn. Llwyniolyn yn dyrnu trwy'r p'nawn. Richard yma yn treulio ei fin nos. John Rowlands Penrallt yma yn nol hesbwrn. Ellis yn mynd i Rhydywernen ac yn prynu dyniawed.

## 2 RHAGFYR 1915

Mam yn mynd ir Hendre. W. E. Jones a Meredith Jones yn did ar dyniawed yma o Rhydywernen (yma yn eu tê). Mr Jones Gweinidog yn galw yn yr Hendre. San yma yn ei thê. Ellis a finnau yn mynd ir seiat. Grace yn dod ar unwaith a fi adref. Llithrig ofnadwy.

## 3 RHAGFYR 1915

Disgwyl Mr Jones yma i saethu (ond ddim yn dod). Mary L Edwards Shop yma min nos. T Davies Cwmhwylfod a D Davies Cynlas yn dod yma min nos. B. P. yn dod yma. Tywydd garw. Y ffordd dyrpec fel gwydr.

## 4 RHAGFYR 1915

San yn dod yma y boreu. Richard yn dod ar bara yma y p'nawn. Tywydd difrifol. Gwlaw mawr iawn. Myfi yn mynd ir Hendre ar ol tê Edward yn dod gyda ni yma min nos i gael hair cut.

### 5 RHAGFYR 1915

Edward yma yn ei dê. Mam yn mynd ir capel y p'nawn ar nos. Cael tê yn Penyffordd. G. Ellis yn ei gwely yn sal.

### 6 RHAGFYR 1915

Myfi yn mynd ir Sarnau i siopa ar ol tê. Tywydd mawr min nos. Ellis yn mynd a coler ceffyl adref i Berwyn House min nos.

### 7 RHAGFYR 1915

Siwrnai hel shenti i Cerryg. Mam yn mynd gyda hwynt i Fedwarian. Gwlaw mawr trwy'r dydd. Sanen yma yn cysgu. Walter Hanford ag Oliver yma min nos.

## 8 RHAGFYR 1915

Ellis yn mynd ar aradr ar pokes ir efail. Fewythr Hugh yma min nos. Cael menthyg llyfr gan R. R. Roberts Ffactory.

## 9 RHAGFYR 1915

Corddi a glanhau llofftydd y boreu. Tywydd gwlyb y p'nawn. Richard yma min nos (cynar) yn tori gwallt Ellis. Gormod o dywydd i fynd ir seiat. Chwareu draughts min nos.

## 10 RHAGFYR 1915

Ellis yn mynd ir felin y boreu a finnau ir Sarnau (i siopa). Mynd drachefn ganol dydd wedi anghofio am "baco". Lamp yn mygu yn ddifrifol yn fy lloft wrth sychu y damp. Ellis yn mynd ir Hendre y prydnawn. John Bryniau yma min nos.

## 11 RHAGFYR 1915

Tywydd mawr iawn. Gwlaw. Disgwyl Win yma ond yn ormod o dywydd. Ellis yn mynd ir Bala i Committee y clwb. D. M. Morris Cynlas yma min nos.

## 12 RHAGFYR 1915

Myfi yn yr Hendre yn cael fy nghinio. Ella yn mynd yn ei thê. Mam yn Tycroes yn ei thê. Eira.

## 13 RHAGFYR 1915

Trwch garw o eira. Mr Jones School Master yma min nos. Morgan Hughes yn dod yma. Hwyl iawn.

## 14 RHAGFYR 1915

Emma Hanford ag Oliver yn dod yma min nos. Myfi yn mynd ir Cefn min nos i dreio arholiad ysgrifenedig.

## 15 RHAGFYR 1915

Mrs Thomas Sarnau a finnau yn mynd ir Bala y p'nawn. Myfi yn dod adref i practice y cor. Ellis a mam yn yr Hendre min nos. Myfi yn gwledda yn Osborne House.

# CYFWELIAD SAIN

— 1969-70 —




Minwel Tibbott, 1970

Yn 1969, aeth Lynn Davies o'r Amgueddfa i gynnal cyfweliad â Kate er mwyn cofnodi tafodiaith ei hardal. Yna, yn 1970 aeth Minwel Tibbott i'w recordio fel rhan o'i gwaith maes arloesol ar fywyd cartref yng Nghymru. Ar ddechre'r cyfweliad cyntaf, mae Kate yn rhoi ychydig o'i chefndir teuluol.

## BYWYD CYNNAR

Amser // 03:14

## CHWARAE STEDDFOD A GADAEL YSGOL

Amser // 03:06

## WYTHNOS AR Y FFERM

Amser // 05:28

* Os ni allwch gael y sain uchod i weithio, mae bosib gwrando ar y wefan // *Dyddiaduron Kate Rowlands*

# Y DYDDIADUR GWREIDDIOL

LATEST INSURANCE COUPONS.

£1000 Railway. £100 Street.

£50 Cycling Accident.

£10 Life Insurance.

# C. & J. PENNY'S IMPROVED DIARY

FOR

1915.

No. 10.

LONDON:

STRAKER & CRANE'S DIARY CO., Ltd.,

(H. W. CRANE & Co.)

38, KING WILLIAM STREET, E.C.

PRICE SIXPENCE NET.

## FOUR Insurance Coupons GIVEN with this DIARY.

**COUPON No. 1** — **ACCIDENT INSURANCE.**

**£1000** at death by accident to Railway Train.

**£500** at death by accident to Tram, Bus, Horse or Motor Cab (plying for public hire), or Passenger Steamer plying between ports in Europe.

**£300** for loss of 2 limbs or 2 eyes by accident, as above.

**£150** for loss of 1 limb or 1 eye by accident, as above.

**£100** if killed by Fire Panic or Explosion in Licensed place of amusement.

**£1 10s.** weekly for temporary total disablement from accidents as above (limit 10 weeks).

**COUPON No. 2** — **STREET ACCIDENTS.**

**£100** if killed or fatally injured in public thoroughfare by a motor or horse vehicle or cycle.

NOTE.—In 1913 2,099 persons were killed by vehicles on streets in the U.K.

**COUPON No. 3** — **CYCLING ACCIDENTS.**

**£50** at death while cycling. **£25** for injury while cycling.

**£1** weekly, for 5 weeks for disablement by accident whilst cycling.

**COUPON No. 4** — **LIFE INSURANCE** Without Medical Examination.

**£10** between ages 20 and 30, and corresponding lesser amounts at more advanced ages, at death from any cause.

**THE ABOVE COUPONS** are believed to be by far the most liberal ever offered. The registration fee is ridiculously small compared with the usual cost of similar benefits.

**OUR LIFE INSURANCE & STREET ACCIDENTS COUPONS** have never been given with Diaries before, and will, we confidently expect, be immensely appreciated.

**THE ACCIDENT COUPONS** now cover death caused by fire, &c., at Theatres, Cinematographs, &c., and an addition has been made to the Cycling coupons giving 20/- per week for 5 weeks while totally incapacitated by accident.

All these Coupons (except the cycling) cover accidents (other than Fire Panic and Explosions) occurring throughout the Continent of Europe.

☞ Do not delay in sending up the Coupons properly filled in, for Registration, directly you read this, as many cases have occurred where neglect to do so has resulted in families being left without any provision.

☞ Note that the Insurance lasts a *whole* year from the date of Registration, and remember a disaster may occur any day. Insurance gives peace of mind and security to the family.

It is well to know that in Great Britain through all causes on Railways alone, 119 passengers were killed and 3,526 injured during 1912, while the total number of persons, including Railway Servants, killed during the year was 1,117 and 32,265 were injured.

Our Insurance Coupons cover all Railway Servants when travelling as ordinary passengers.

**REGISTER COUPONS AT ONCE.**

CONTAINING £1000 INSURANCE COUPONS.

# C. & J. PENNY'S
## . LONDON .
# Almanack and Diary
# 1915.

INCLUDING

**£1000 RAIL, £100 STREET ACCIDENTS, £50 CYCLING, £10 LIFE**

**INSURANCE COUPONS.**

*This Diary is published in the following Editions:—*

| | | |
|---|---|---|
| No. 10 Diary, 6 × 3¾, in Leatherette Cover ... | | 6d. Net. |
| ,, 12 ,, ,, Roan Pocket Book, with Elastic ... ... | | 1s. Net. |
| ,, 13 ,, ,, French Morocco Pocket Book, with Elastic, and extra Memo pages, Gilt | | 2s. Net. |

LONDON:
STRAKER & CRANE'S DIARY CO., LTD.,
(H. W. CRANE & CO.),
38, KING WILLIAM STREET, CITY, E.C.

1595/1

SU. 10. 1st Sunday after Epiphany.
Rev. J. H. Williams Mynydd Isa'
Gwlaw mawr iawn.

M. 11. Hilary Law Sittings begin.
Ella ag Edward yma yn eu
tē. Dyfi yn dechreu gwneyd
tea cosy (Cosh). Humphrey
Davies Derwgoed. a Simon
William Jones Coedybedo
yma min nos. Fenyth Evan
Pengffordd yn dod yma am dro
yn y prydnawn.

TU. 12.
Uncle ac Auntie Fedwarian
yn dod yma yn y prydnawn
"Uncle yn cwyno dipyn" K. E.
Hughes a minnau yn myned
i'r ffactory i dalu cyfraniad
arian y Belgians. Robert
Daniel Jones Carrau yma.

W. 13.
Ellis yn myned i nôl glo.
Dyfi yn myned i'r Bala i'r
pregethau. Rev. W. Prydderch
Abertawe. a Watkins Denorme
yn pregethu. Bob Price yn
dod yma. Win yn y Bala.





TH. 14. Oxford Lent Term begins.
Ellis a mam yn y Bala
trwy'r dydd. (Cyfarfod Misol)
Gwlaw mawr ofnadwy min
nos.

F. 15.
Malu lot o wellt i'r gwartheg
a'r ceffyl. Tywydd garw.
Mam yn myned i Penybryn
min nos. D. Morris Evans.
Tynyfbryn. a Tomi Hendre yma
min nos.

SA. 16.
Ellis a mam yn myned i'r
Bala i'r ffair. Tywydd pur
arw. Richard a Tomi Hendre
yma min nos

**Su. 7. Sexagesima.** Tywydd ofnadwy. Myfi yn myned i'r ysgol. Gartref y prydnawn ar nos hefo Ellis. mam yn y ffactory yn te thê.

**M. 8. Half-Quarter Day.** Tomi yn myned a buwch deu i'r Bala. Myfi yn myned yn shopio. Tomi yn dod a llwyth o galch adref.
Myfi yn dechreu clwyfo o'r influenza. Ellis ychydig yn well, codi i nol "orange" yn y nos.

**Tu. 9.** Ellis bet fod gystal. Richard yma yn "bailiff." minnau yn reit ddrwg." wedi cryglu". modryb Ewfeerig yn galw yma y bore. Auntie Grace yma min nos. a John. R. Jones.

**W. 10.** Claddu Mr. R. Thomas Nantgau a Mrs. S. Jones Llemyfawr. J. Jones Ysgubor Fawr yma yn nol benthyg y tresi blaen. i symud y pethau dynnu i Brynmoel. Manmam, a R. Daniel Jones yma min nos. J. Williams Pantyneuadd yn dod yma.





**Th. 11.** Ellis ychydig yn well, a minnau rhywbeth yn debyg. Miss Hughes Rhydlise yma yn treulio ei brydnawn a min nos. (Ynteu yn cwyno). Simon William Jones Coedyglado yma min nos.

**F. 12.** Ellis yn myned i nol glô. Anwen yn dod i edrych amdanom. ac i'r Hendre. minnau yn myned i ddanfon ychydig arni. Deborah a merch Tynyffron. yma yn gwerthu tocynau at goncert yn "Glanrafon" at gynorthwyo y Belgiaid.

**Sa. 13.** Tywydd mawr ofnadwy: eira. Ellis yn myned i ffair y Bala. Myfi allan ychydig yn edrych ar ol y defaid. Lluwchfeydd mawr iawn.

SU. 21. Quadragesima. 1st in Lent.
Myffi yn mynd i'r capel twice dydd. Jane Pantypwarch yma yn ei thê.

M. 22. Berwi pen mochyn, a thoddi lard. Myffi yn mynd i'r Hendre, hefo Sanen. Tomi a Richard yma min nos. Robert Daniel Jones yn ymadael o'r Caerau. i'r Derwgoed yn wael.

TU. 23. Pobi bara ceirch y boreu. Myffi yn mynd i gladdu Hugh Jones (Cwmcwan gynt) Tywydd ofnadwy. (eira mawr) Richard a minnau yn cael ride yng nghar yr Hendre. R. Daniel Jones yma y prydnawn. Ellis yn mynd i'r Hendre min nos. Oen bach.

W. 24. St. Matthias. Ember Day.
Eira mawr. Ellis yn mynd i nol "Basic Slag" i'r Bala. G. Ellis Penyffordd yma yn ei thê. Myffi yn clarcio drosti at Mrs Dring. ac i gapel Glanrafon. Dafydd Ellis a Grace Pentre. yn dod yma yn ... min nos. cerdded yn ol a blaen.





TH. 25. Luwch da o eira, ac wedi shewi. Ellis yn mynd i'r Hendre. Myffi yn mynd i'r seiat. Modryb Erwfeirig yn dod yma. Myffi yn cael swper yn Penyffordd. William Fadwarian yn dod i'r Hendre ag yma. aa gefn y ferlen.

F. 26. Ember Day.
Mam yn cwyno y boreu. Ellis yn mynd i'r Hendre min nos. Gwlaw mawr. Myffi yn mynd i'r ffactory i dalu arian y Belgians Dadl gan gymdeithas y Bobl ieuainc. Pa un a'i y gwr. a'i y wraig ddylai fod canghellor y teulu Bolis. Gwraig 17. Gwr. 16.

SA. 27. Ember Day.
Ellis yn mynd i'r Felin y boreu. Myffi yn cwyno. yn anwyd. yn fy ngwely dipyn o'r prydnawn. Ewyrth Ewan yma yn ei dê. R. Daniel Jones yn dod yma am dro Mam yn mynd i'r Bala. John Hughes Bryniau. a J. R. Jones. Hendre yma yn cael torri eu gwalltiau

Su. 11. 1st Sunday after Easter. Low Sunday.
Mam yn yr Hendre yn ei chenio ai thê. dim yn dod i'r capel y p'nawn.

M. 12. Myfi yn myned i'r Bala ar ol te cyfar. i nol paent &c. at y cwpwrdd. Myfi yn llechu rhag y gwlaw am dipyn yn Osborne House. John Rowlands ychydig yn well.

Tu. 13. Easter Law Sittings begin
Gwneyd y cwpwrdd i ffwrdd y boreu. Dechreu hau ceirch yn cae Bryn. Myfi yn myned i'r Bryn i ymorol am Ewythr Evan i fyned i hau i'r Hendre.

W. 14. Penybryn yn hau. Ninnau yn dechreu ychydig ar cae ffordd. Minnau yn myned i'r Bryn i Penyffordd i ymorol am Ewythr Evan i'r Hendre. Dod ar adref trwy [illegible]





Th. 15. Hau ffridd wrth ffordd. Spring cleanio y pantry ei liwio yn goch. Richard yma yn ei ginio ai dê. Stan yma yn ei thê. ac yna hi a minnau yn myned i'r seiat. Bob Price yn dod yma. Ellis yn planu rhes o datws yn yr ardd.

F. 16. Corddi y boreu. Spring cleanio y dairy. Grace Penybryn yn dod ar bara yma. Myfi yn myned i'r Bryn min nos i dalu arian y Belgians i R.R.R. Humphrey Davies Derwgoed yma yn cael torri ei wallt min nos.

Sa. 17. Ellis a mam yn myned i'r ffair. Oen bach y ddafad gorniog yn cael tarawiad marwol y boreu. Morgan Hughes yn dod heibio yma ag arian y Belgian ar ol anghofio eu talu i R.R.R. yn y Bala. Myfi yn myned i nol Smorlas adref o ffridd Penybryn.

SU. 18. 2nd Sunday after Easter.
Rice yn dod yma yn y boreu. Myfi adref y boreu.

M. 19. Primrose Day. Cambridge Easter Term begins.
Dros 500 o garcharorion Germanaidd yn dod i Frongoch. Myfi yn myned i'r Post a myned a choler cettyl. Berwyn House adref. Tenythe Hugh yn dod yma i weld y cwpwrdd.

TU. 20. Ellis yn myned i ffair Gorwen. Myfi yn myned i Lidiardau i gladdedigaeth Mrs Ellis Llanerch. Mynd i G.B. Win yn dod i fy nanfon at Ffrydan. Gorfod cerdded adref. dim gwynt yn y bike.

W. 21. Hau hadau yn ffridd wrth ffordd. minnau yn myned ar diwrnod i'r Caerau. Mam yn myned i'r Hendre. Myfi yn myned i'r Llan i nol Bike. Wen yn dod yma i nol y bike. Bob Price a Richard yma.





TH. 22. Cychwyn Win y boreu. Ei danfon at Ffridd Penybryn. Bethau yn myned ar bike adref. Mam yn myned i seiat. minnau yn garddio yn yr ardd fach. Tomi Hendre yma nos.

F. 23. St. George
Myfi yn myned i'r Garnau y boreu. Hau haidd yn Cae Bach ucha. Myfi yn myned i'r Bryngoed min nos. Ella yn dod yma. Modryb Tawfryn yn papuro yn Tyeroes.

SA. 24. Myfi yn myned i'r Bala y prydnawn, gweled William yno, yna myned i'w ddanfon i Ledwariaw. Mrs Jones Coedybedo yn cario ein papur papuro adref. Mr William Evans Bontbren. a Davies Tynyffatw yma yn prynu Porca.

SU. 9. 5th Sunday after Easter. Rogation Sunday. Half-Quarter Day.
Mynd i'r capel y boreu a nos. Mr. & Mrs. Edwards Tellinneuydd yno. Mr. & Mrs. Edwards (Pentre) yn mynd i Nantfach.

M. 10. Maggie a minnau yn mynd i lawr at Nanthir i weld y "Germans." yn mynd am dro. A.S. Liz. Maggie. a minnau yn mynd i Hafodyresgob Isaf i'n swper. Annie Blodwen yno. Y pedair yn dod i'n hanfon i'r station.

TU. 11. Carrega yn yr hadau y boreu. Myfi yn carrega yn y gotel y prydnawn. Myfi yn mynd a tatws i'r Sarnau min nos. cael swper yna. Richard a Walter Stanford yn saethu yn yr "Ro"

W. 12. Mammam yma yn ei thê. Ellis a Richard yn mynd i Tyercs i nol chest of drawers. Myfi yn mynd i'r post. anfon am luy jam i Sheffield. Mam yn mynd i ddanfon mammam i'r Hendre. Tomi a Kate Ellen yma.





TH. 13. Ascension Day. Holy Thursday.
Diwrnod gwlyb iawn. Ellis yn Penybryn yn planu tatws. John Williams Sarnau yma yn nol tatws. Myfi yn mynd i'r Hendre min nos. ac oddiyno i'r seiat. Galw yn Penyffordd wrth ddod adref.

F. 14. Pawb yn mynd i'r ffair (myfi ar ol cinio). Mag yn dod adref o Lerpwl gyda'r tren 4. Maggie Lizzie Lewis yn dod i Gwernhesaig. minnau yn mynd yno o'r ffair.

SA. 15. Scottish Quarter Day.
Mag. a Maggie Lizzie yn mynd i'r Bala ar draws y Stadros. minnau a Win yn mynd hyd y ffordd. Ein pedair yn mynd i Llangwm i gladdu Mr. Pugh Nantfach. Win a minnau ar bikes. Cael cywen yn Gwernhesaig. B.P. yma.

## JULY, 1915.

Su. 11. 6th Sunday after Trinity.

Gladys Cwmhwylfod yma yn ei chinio. David No1. yma yn ei de. Nyni ein pedwar yn yr Hendre yn ein te.

M. 12. Myfi yn mynd i'r Hendre y boreu, i nol y "skillet"! Cael lot-s hen flouses gan Auntie Grace. Gwneyd jam eirin mair y p'nawn. Myfi yn mynd i'r Bala min nos i nol springs i'r engine torri gwair. Gladys Cwmhwylfod yma. Ein dwy yn prynu presant i Richard.

Tu. 13. Ellis yn mynd i'r Hendre. Gladys yn galw yma ar ei ffordd i Llandderwen. Myfi yn ei danfon i'r Sarnau. ac yn mynd oddiyno i Typella. i nol eirin mair. Cyfarfod Bob Lloyd wrth ddod adref.

W. 14. Golchi y boreu. Gladys yn dod yn ol o Llandderwen. Ein dwy yn mynd i Caewlff min nos. Annie a Mary yn dod in danfon i ffordd Llyn. Gwlaw wrth ini ddod adref. Tori darn cae tan ty.



## JULY, 1915.

Th. 15. St. Swithun.

Mynd i nol burym i'r Cefn y boreu. Emma Stanford yn dod i nol y tins bara. Ellis yn yr Hendre. Mam a minnau yn mynd i'r seiat. Myfi yn mynd a ty (aghard insurance) i Mr. Jones. Grace Penybryn yn cwyno. Cael dysgl o eirin mair yn y Terrace.

F. 16. Gwlaw mawr. Mam yn mynd i'r Hendre min nos. David Roberts Pentre yma min nos. Myfi yn mynd i'r Sarnau wrth nol y gwartheg. Ellis yn cwyno.

Sa. 17. Gwlaw. Ellis yn mynd i'r Bala ar ol te. Myfi yn mynd i'r Sarnau min nos. Penodi Miss Susie Jones yn athrawes yn ysgol Llandderfel. Anwen yn cael notice i gael cowpog oddiwrth y Red Cross.

SU. 29. 13th Sunday after Trinity.
Ellis yn y Hendre yn ei ginio B.P. yma. dod y boreu.

M. 30. Ellis yn myned ar moch i Bala (308 - 270) Myfi yn myned i'r Hendre ar ol tê. Sam yn cwyno. Ellis yn myned i Brynpader i olwg moch. ac yn eu prynu.

TU., 31. Ellis yn myned i'r Hendre y boreu. Myned i Brynpader ar ol cinio. i nol y moch. Golchi gwrthbanau y boreu. Myfi yn myned gyda Mrs Thomas i goed Tucka i nol coeden at gynau tân.

W., SEPTEMBER 1. Partridge Shooting begins. [30 DAYS.
William Ledwardan yn dod yma min nos. Ellis yn myned i'r Derwgoed ar ol tê. Tom bach a David Morris yma min nos.




Dechreu tori ceirch yn Cae Ffordd.

TH. 2. Disgwyl Auntie Ledwardan yma ben boreu. Auntie Grace a hithau yn dod ar ol tê. y ddwy wedi bod yn Cwmhwylfod. Nain yn myned gyda hwynt i Penybryn. Gladys Davies. a M. J. Roberts yma yn hel arian y Gobaith. Richard ar wraig yma min nos. Morgan Hughes yma.

F. 3. Tori ceirch Cae Ffordd. John Evans, ~~a~~ wraig, a'r bachgen bach (Gwynfor). a D. Ellis Pentre yn dod yma o Penybryn. myned oddiyma i'r Hendre min nos. Ninnau ein tri yn myned gyda hwynt.

SA. 4. Tori darn bach o geirch yn Cae Ffordd. Cawod o wlaw ar ol cinio. Myfi yn myned i'r Bala ar ol tê. prynu het. tagel nawy. Gweld trenied o Canadians o Trawsfynydd yn pasio trwy Bala i'r ffrynt. Siarad dipyn ag R.W. Evans Sydraw yn y Bala rhoddi note iddo fynd i Win.

## OCTOBER, 1915.

Su. 24. 21st Sunday after Trinity.
Myfi yn mynd i Caewlff y boreu. Annie yn ddrwg iawn. Geni mab iddi, ond bu farw yn mhen awr.

M. 25. Pawb yn mynd ir ffair, Robert Ifor Ellis Pwllyhwyaid yn dod yma. Annie Lloyd a Win yn y ffair. hwyl iawn. diwrnod hynod o oer. Annie Caewlff yn bur ddrwg. Claddu y plentyn bach min nos.

Tu. 26. Ellis yn mynd ir mynydd y boreu, yna yn mynd i Lynant i nol hesbyrniaid yr Hendre. Robert Ifor yn mynd i Byrgoed, a Penycefn. Morgan Hughes yn dod gydag ef yma min nos.

W. 27. Corddi y boreu, Myfi yn mynd i Rydlise i ddweyd fod oen iddynt yn Penrallt. yna yn mynd ir Cefn i weld priodas Maggie Watkins Lynant ai Rev. John Parry. Newmarket, dod trwy gaeau Crwfeiriog adref hefo Auntie Grace, cael parcel o Sheffield,

Geni merch Osborne House



## OCTOBER, 1915.

Th. 28. St. Simon and St. Jude.
Mammam. Ellis. mam, a Ewythr Hugh yn mynd i Lynyffrwd Dinmael am y diwrnod. Myfi yn mynd ir Hendre. John Jones Brynffynon yn dod yno.

F. 29. Lwymo y potty, a berwi y boiler ir moch. Ellis yn mynd ir Bala min nos i nol dose ir llô. (llô Beauty) John Williams. Pantymenadd yma yn cyfyen. Morgan Hughes. a D. M. Morris. a D. Davies Cynlas yma min nos.

Sa. 30. Cael llythyr o Ledwarian yn dweyd am alwad Anwen at y Red Cross. i Newport Monmouthshire. Mr. W. Evans Bontbren yma y p'nawn. Myfi yn mynd ir Bala ar ol te. ac yn galw yn Osborne House cael golwg ar y ferch.

Su. 14. 24th Sunday after Trinity.
Eira mawr. Myfi yn mynd i'r capel y p'nawn a'r nos. Kate Cynlas yn dod i fy nanfon adre.

M. 15. Ellis yn mynd i'r efail. Susannah yn mynd i Cynlas i aros. Sam Fedwarian yn dod a'r ceffyl yma, yn barod i fynd i Gorwen dranoeth. S. W. Jones Coedybedo a David Roberts Pentre yma min nos. Lluwch mawr.

Tu. 16. Sam yn mynd i Gorwen yn y boreu. Y peiriant dyrnu yn yr Hendre. Ellis a minnau yno. Myfi yn mynd i'r Bryniau min nos. Jennie Rhydlios yn ymadael o Penrallt.
D.P. yma min nos.
Eira mawr.

W. 17. Y peiriant dyrnu yn Llwynglwed, ac yn symud i Llwllwyn. (12 o geffylau yn ei thynnu)
Ellis yn mynd i'r Hendre min nos.
Robert Jones Cwrfeirig yma min nos yn nol y gwin.
Ellis yn nol glo y boreu.





Th. 18. Mr. Rowlands Tanygroed yn galw yma dros y Swyddfa Ryfel a Morgan Hughes yma yn hel ticedi "diweest". Myfi yn anfon llythyr at Anwen i "Newport".
Ellis a minnau yn mynd i'r seiat
Mary Shop yn dod i fy nanfon adref.

F. 19. Ellis yn lladd dafad. Y peiriant dyrnu yn Penycefn.
Mr. Roberts o Lanelidan yn rhoddi darlith yng nghyfarfod y Bobl Ieuainc. "Ni ein hunain"
Ellis yn mynd a'r bara adref i Benybryn min nos.

Sa. 20. Ellis yn mynd i'r Bala. Johnnie Thomas yma yn rhoddi ffram i'r bwrdd bach.
Myfi yn mynd i'r Sarnau min nos.
Tomi Hendre a William Cwmhwylfod yma min nos.

## Monthly Cash Account.

| DATE. | FEBRUARY, 1915. | RECEIVED. £ | s. | d. |
|---|---|---|---|---|
| | Private R.W. Ellis. 2843. 15 Platton. D. Company. 1/7th. R.W.F. Ruskden. Mr. Bedford. | | | |
| | Private. Ivor Jones Thomas. (Erwfeiriq) 26,264. D. Coy, 17. Battallion, R.W.F. Flower Down Camp. Winchester. | | | |
| | Total £ | | | |



## Monthly Cash Account.

| DATE | FEBRUARY, 1915. | PAID. £ | s. | d. |
|---|---|---|---|---|
| | Miss Kate Davies. Glynneiddan. Nantgaredig. Carmarthen S.W. | | | |
| | Private R. W. Ellis. 2843. 1/7. R.W.F. Attached. R.A.M. Corps. 21st. General Hospital. Alexandria Egypt. | | | |
| | Total £ | | | |